

# **Adroddiad ar y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd**

Cyngor Sir Fynwy

20 – 22 Chwefror a 4 – 5 Mawrth 2013

# Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder defnyddwyr o ran bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau unedol yng Nghymru yw gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, a bwyd anifeiliaid a bwyd a fewnforiwyd. Mae'r swyddogaethau rheoleiddio hyn sydd gan awdurdodau lleol yn cael eu cyflawni'n bennaf trwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio amgaeedig yn edrych ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyriaeth o'r systemau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer arolygu busnesau bwyd, samplu bwyd, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodi a hybu diogelwch bwyd. Dylid cydnabod y gallai fod cryn amrywiaeth yn y ffordd a'r modd y mae awdurdodau'n darparu eu gwasanaethau gorfodi bwyd, gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r Asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â'r Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd "(Y Safon)", a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol, ac mae ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy:

[www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree](http://www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree)

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau'n darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi cyfle i amlygu a lledaenu arfer da a darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd, safonau a bwyd anifeiliaid, sydd ar gael drwy:

[www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring)

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft am nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd o safleoedd bwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data am weithgarwch gorfodi ar gyfer pob awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig, ac mae ar gael drwy: [www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring)

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

Er hwylustod, ceir rhestr o dermau technegol a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad archwilio yn Atodiad C.

	<b>CYNNWYS</b>	<b>Tudalen</b>
1	<b>Cyflwyniad</b>	<b>5</b>
	Y Rheswm dros yr Archwiliad	5
	Cwmpas yr Archwiliad	5
	Cefndir	6
2	<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>9</b>
	<b>Canfyddiadau'r Archwiliad</b>	<b>12</b>
3	Trefniadaeth a Rheolaeth	12
4	Adolygu a Diweddarw Polisiâu a Gweithdrefnau Cofnodedig	16
5	Swyddogion Awdurdodedig	17
6	Cyfleusterau ac Offer	20
7	Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd	22
8	Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd	29
9	Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref	31
10	Cyngor i Fusnesau	32
11	Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd	33
12	Arolygu a Samplu Bwyd	34
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd	36
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	38
15	Gorfodi	39
16	Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu	41
17	Cwynion am y Gwasanaeth	44
18	Cyswllt â Sefydliadau Eraill	45
19	Monitro Mewnol	46
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid	48
21	Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd	49
	<b>Atodiadau</b>	
A	Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Fynwy	50
B	Dull/Methodoleg yr Archwiliad	60



## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau archwiliad o hylendid bwyd a safonau bwyd yng Nghyngor Sir Fynwy o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae ar gael i'r cyhoedd ei weld ar wefan yr Asiantaeth drwy:  
[www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports)

### *Y Rheswm dros yr Archwiliad*

- 1.2 Rhoddwyd y grym i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o'r gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd yng Nghyngor Sir Fynwy o dan adran 12(4) y Ddeddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.
- 1.3 Mae Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y dilysir cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, yn cynnwys gofyniad i awdurdodau cymwys gynnal archwiliadau mewnol neu i drefnu bod archwiliadau allanol yn cael eu cynnal. Diben yr archwiliadau hyn yw dilysu p'un a yw rheolaethau swyddogol sy'n ymwneud â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni'r gofyniad hwn, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sef yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig, wedi sefydlu trefniadau archwilio allanol. Wrth ddatblygu'r rhain, mae'r Asiantaeth wedi ystyried arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd ar sut y dylai archwiliadau o'r fath gael eu cynnal.<sup>1</sup>
- 1.4 Cynhaliwyd archwiliad o'r awdurdod fel rhan o raglen tair blynedd (2013 – 2016) o archwiliadau llawn o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

### *Cwmpas yr Archwiliad*

- 1.5 Roedd yr archwiliad yn ymdrin â threfniadau Sir Fynwy ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith hylendid bwyd a safonau bwyd. Cynhaliwyd yr elfen 'ar y safle' o'r archwiliad yn swyddfeydd yr awdurdod ym Magor a'r Fenni ar 20 – 22 Chwefror a 4 – 5 Mawrth 2013, ac roedd yn cynnwys ymweliadau dilysu â busnesau bwyd i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol a weithredir gan yr awdurdod ac, yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhelir gan swyddogion yr awdurdod, i ddilysu cydymffurfiaeth gweithredwr busnes bwyd â gofynion deddfwriaethol.

---

<sup>1</sup> Penderfyniad y Comisiwn ar 29 Medi 2006 sy'n amlinellu'r canllawiau sy'n gosod meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o reolaethau swyddogol i ddilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid (2006/677/EC).

- 1.6 Roedd yr archwiliad hefyd yn rhoi cyfle i drafod gyda swyddogion sy'n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd, gyda'r nod o archwilio materion allweddol a chael safbwyntiau i lywio polisi'r Asiantaeth.
- 1.7 Roedd yr archwiliad yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod â'r "Safon". Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000 (ac fe'i diwygiwyd am y pumed tro ym mis Ebrill 2010), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy [www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree](http://www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree)
- 1.8 Roedd yr awdurdod yn un o ddau yng Nghymru a wirfoddolodd i ddatblygu cynllun sgorio archwiliadau awdurdodau lleol ar ôl i'r archwiliad gael ei gwblhau.
- 1.9 Dylid nodi nad oedd gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yr awdurdod wedi'i gynnwys yng nghwmpas yr archwiliad. Roedd y posibilrwydd o ddarparu'r gwasanaeth hwn ar y cyd yng Nghymru yn cael ei ystyried ar adeg yr archwiliad. O ganlyniad, o ran y ddau Awdurdod a wirfoddolodd i dreialu'r cynllun sgorio archwiliadau awdurdodau lleol, cytunwyd y byddai bwyd anifeiliaid yn cael ei archwilio yn ddiweddarach yn y cylch archwilio.

### **Cefndir**

- 1.10 Awdurdod Unedol yng nghornel dde-ddwyreiniol Cymru yw Cyngor Sir Fynwy. Mae'n cynnwys ardal o 850 o gilomedrau sgwâr ac yn rhannu ei ffin ddwyreiniol â Lloegr. Mae Sir Fynwy wedi'i lleoli mewn ardal a adwaenwyd yn hanesyddol fel y Gororau.
- 1.11 Mae bron hanner 91,300 o drigolion Sir Fynwy yn byw yn y prif drefi, sef y Fenni, Trefynwy, Wysg, Cas-gwent a Caldicot.
- 1.12 Sir wledig yw Sir Fynwy sydd â thraddodiad cryf o ffermio a chynhyrchu bwyd yn lleol. Nodweddir ei threfi gan farchnadoedd a sioeau sirol a chrefftau traddodiadol.
- 1.13 Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Wysg ac asedau naturiol gwerthfawr eraill – gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – yn gwneud Sir Fynwy yn gyrchfan hamdden poblogaidd iawn, sy'n golygu bod gan y sir ddiwydiant twristiaeth datblygedig iawn.
- 1.14 Mae oddeutu dwy filiwn o ymwelwyr yn dod i ardal Sir Fynwy bob blwyddyn. Amcangyfrifwyd bod £149.8 miliwn wedi'i wario gan dwristiaid

yn 2010, gan gefnogi 2,461 o swyddi'n uniongyrchol a 546 yn anuniongyrchol.

- 1.15 Mae sectorau pwysig eraill yn economi'r ardal yn cynnwys gweithgynhyrchu, dosbarthu, cynhyrchu bwyd ac amaethyddiaeth, sy'n adlewyrchu ei natur wledig.
- 1.16 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 yn graddio ardaloedd bach penodol yng Nghymru o ran amddifadedd: nid yw'r un o ardaloedd Sir Fynwy o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- 1.17 Adran Amddiffyn y Cyhoedd yr awdurdod, sy'n dod o fewn y Gyfarwyddiaeth Adfywio a Diwylliant, oedd yn gyfrifol am orfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, ac am ymchwilio i achosion o wenwyn bwyd a chlefydau trosglwyddadwy, a'u rheoli.
- 1.18 Yn yr Adran Amddiffyn y Cyhoedd, y Tîm Masnachol lechyd yr Amgylchedd oedd yn gyfrifol am orfodi cyfraith bwyd ac ymchwilio i glefydau trosglwyddadwy a'u rheoli. Yn ogystal â gorfodi cyfraith bwyd, roedd swyddogion hefyd yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a Safleoedd Di-fwg. Roedd y tîm yn ymdrin â gwaith ymatebol arall hefyd e.e. problemau draenio mewn safleoedd masnachol.
- 1.19 Lleolwyd y gwasanaeth gynt yn Neuadd y Sir yng Nghwmbrân. Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi penderfynu gadael yr adeilad.
- 1.20 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi 'gweithio hyblyg' a oedd wedi'i amlygu'n flaenoriaeth gorfforaethol. Roedd hyn yn golygu, lle y bo'n berthnasol, bod gan staff eu gliniaduron eu hunain a oedd yn galluogi'r cyngor i weithredu polisi o un ddesg i ddau unigolyn, ac yn caniatáu i staff weithio pryd bynnag a ble bynnag oedd yn gweddu orau iddynt. Yr ethos o ran gweithio ar draws y cyngor oedd "gwaith yw rhywbeth rydych chi'n ei wneud, nid rhywle rydych chi'n mynd iddo".
- 1.21 Ar adeg yr archwiliad, roedd yr Adran lechyd yr Amgylchedd yn gweithredu gwasanaeth datganoledig, gyda'r rhan fwyaf o'r Tîm Masnachol yn gweithio o gartref. Roedd nifer o ganolfannau gweithio 'hyblyg' ar gael i swyddogion ledled y sir, ac roedd gliniaduron a ffonau symudol wedi'u rhoi iddynt.
- 1.22 Er mwyn adlewyrchu'r ffordd newydd o weithio, roedd y gwasanaeth wedi symud oddi wrth gofnodion copi caled i gadw cofnodion electronig a, chyn belled ag y bo'n bosibl, roedd y gwasanaeth yn gweithredu systemau di-bapur.

- 1.23 Roedd swyddogion yn cael eu cefnogi gan dîm bach o weinyddwyr. Roedd gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd rhwng 08.45 a 17.00 o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 08.45 a 16.30 ar ddydd Gwener.
- 1.24 Roedd trefniadau wrth gefn wedi'u sefydlu i ymdrin ag argyfyngau y tu allan i oriau swyddfa. Roedd staff canolfan alwadau yng Nghaerdydd wedi cael manylion cyswllt rheolwyr a swyddogion arweiniol, ynghyd â rhifau ffôn wrth gefn. Er bod yr ymateb y tu allan i oriau swyddfa yn cael ei ddarparu gan swyddogion ar sail wirfoddol, ewyllys da, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth wrth yr archwilwyr fod y gwasanaeth yn sicr. Ni phrofwyd yr ymateb y tu allan i oriau swyddfa fel rhan o'r broses archwilio, ond ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o achosion lle yr oedd yr awdurdod wedi methu ag ymateb i hysbysiadau y tu allan i oriau swyddfa.
- 1.25 Yn ôl Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod, roedd proffil busnesau bwyd Cyngor Sir Fynwy ar 31 Mawrth 2012 fel a ganlyn:

<b>Math o safle bwyd</b>	<b>Nifer</b>
Cynhyrchwyr Cynradd	28
Gweithgynhyrchwyr/Pacwyr	53
Mewnforwyr/Allforwyr	1
Dosbarthwyr/Cludwyr	13
Manwerthwyr – llai	270
Arlwywyr/safleoedd bwyd	1000
<b>Cyfanswm nifer y safleoedd bwyd</b>	<b>1,365*</b>

\*mae hyn yn cynnwys safleoedd sydd wedi'u cofrestru gan yr awdurdod a safleoedd anghofrestredig e.e. masnachwyr marchnad sydd wedi'u cofrestru mewn man arall

- 1.26 Yn ôl Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd 2012/13, roedd gan yr awdurdod 7.3 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys y Prif Swyddog) a oedd yn gwneud gwaith gorfodi hylendid a safonau bwyd, hyrwyddo, rheoli clefydau trosglwyddadwy, ac iechyd a diogelwch. Nid oedd hyn yn cynnwys uwch reolwyr (y Rheolwr Amddiffyn y Cyhoedd) a chymorth gweinyddol a samplu.
- 1.27 Yn ôl Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd 2012/13, roedd yr awdurdod wedi amcangyfrif mai cyfanswm y gwariant refeniw blynyddol ar ddiogelwch a safonau bwyd oedd £363,000.
- 1.28 Roedd yr awdurdod wedi bod yn cymryd rhan yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol a lansiwyd gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ym mis Hydref 2010. Roedd sgoriau hylendid 693 o sefydliadau bwyd ar gael ar wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol.



## 2 Crynodeb Gweithredol

- 2.1 Roedd yr awdurdod yn darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd a oedd yn gweithio'n agos gyda busnesau i'w cynorthwyo i gydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd yr awdurdod wedi defnyddio cyllid gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i ddarparu ymweliadau a seminarau hyfforddi ar gyfer busnesau lleol i'w cynorthwyo i ddatblygu eu systemau rheoli diogelwch bwyd.
- 2.2 Yn 2011/12, cynhaliwyd 99.8% o'r ymyriadau hylendid bwyd y dylid bod wedi'u cynnal. Cynhaliwyd 100% o ymyriadau hylendid bwyd risg uchel ac roedd 82.65% o sefydliadau bwyd yn cydymffurfio'n fras â deddfwriaeth hylendid bwyd. Roedd 100% o fusnesau newydd a gofrestrodd yn ystod y flwyddyn wedi cael arolygiad hylendid bwyd. Cynhaliwyd 100% o'r ymyriadau safonau bwyd y dylid bod wedi'u cynnal. Ar adeg yr archwiliad, roedd nifer fach o ymyriadau heb gael eu cynnal, ond dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth wrth yr archwilwyr y byddai'r rhain yn derbyn sylw erbyn diwedd y flwyddyn.
- 2.3 Roedd yr awdurdod wedi croesawu'r Cynllun Prif Awdurdod ac wedi sefydlu Cytundebau Prif Awdurdod ffurfiol gyda nifer o fusnesau.
- 2.4 Amlygodd yr archwiliad ddiffygion o ran cysondeb ac ansawdd yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod ymyriadau cyfraith bwyd. Er bod cronfa ddata safleoedd yr awdurdod yn ymddangos yn gadarn ac yn gallu gweithredu'n effeithiol, roedd y diffygion o ran casglu a chofnodi gwybodaeth arni mewn modd amserol yn golygu nad oedd yn gyson gywir. Mae'n rhaid cael gwybodaeth gywir a chyfredol er mwyn gallu rheoli gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd yn effeithiol.
- 2.5 Ar adeg yr archwiliad, dywedwyd wrth yr archwilwyr bod yr awdurdod mewn cyfnod 'pontio' wrth iddo drosglwyddo o gadw gwybodaeth ar gopi caled i swyddfa ddi-bapur. Roedd problemau o ran adalw gwybodaeth allweddol wedi effeithio ar y rhan fwyaf o agweddau ar yr archwiliad. Roedd yr awdurdod yn cydnabod hyn ac mae'n gweithio i sicrhau gwelliannau.

## 2.6 Cryfderau'r Awdurdod

### Monitro Mewnol Meintiol

Roedd y broses monitro mewnol meintiol o ran y rhaglen ymyriadau hylendid bwyd wedi'i hwyluso trwy ddatblygu taenlen â chod lliw a oedd yn dangos y rhaglen arolygu flynyddol. Cronfa ddata 'fyw' oedd hon a ddefnyddiwyd gan yr holl swyddogion a rheolwyr i amlygu'r safleoedd hynny a ddylai gael arolygiad. Roedd sgoriau risg yn cael eu holrhain ac roedd cyfleuster ar gael i swyddogion fewnbynnu manylion am y camau

a gymerwyd ganddynt i sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd hyn wedi cynorthwyo'r awdurdod i wella ei berfformiad o ran arolygu safleoedd pan oedd yn bryd cynnal arolygiad. Amlygwyd hyn fel maes arfer da.

### **Cyngor i Fusnesau**

Roedd yr awdurdod yn gweithio'n frwd gyda busnesau i'w cynorthwyo i gydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyngor yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Prif Awdurdod i nifer o fusnesau, a darparu gwybodaeth ar wefan yr awdurdod. Roedd swyddogion yn rhagweithiol wrth roi cyngor yn ystod ymyriadau bwyd hefyd.

## **2.7 Meysydd Allweddol i'w Gwella ar gyfer yr Awdurdod**

### **Ymyriadau ac Arolygiadau Bwyd**

Er bod ymyriadau'n cael eu cynnal yn unol â'r rhaglen yn gyffredinol, mewn rhai achosion, nid oedd yn bosibl cadarnhau nac asesu bod arolygiadau priodol yn cael eu cynnal. Roedd hyn oherwydd nad oedd swyddogion yn cofnodi digon o fanylion ar ffurflenni arolygu, yn eu llyfrau nodiadau neu ar y gronfa ddata. Mae absenoldeb cofnodion manwl yn lleihau hyder yn ansawdd ymyriadau.

Amlygwyd nifer o anghysondebau o ran sgoriau risg safonau bwyd busnesau. Yn ogystal, gan fod amllder arolygiadau safonau bwyd yn dilyn amllder arolygiadau hylendid bwyd, nid oedd safleoedd â sgôr risg safonau bwyd a oedd yn golygu bod angen cynnal ymyriadau'n amlach na'r hyn oedd yn ofynnol yn ôl y sgôr risg hylendid bwyd, bob amser yn cael ymyriadau safonau bwyd o fewn y cyfnod gofynnol. Nodwyd bod hyn yn berthnasol i nifer fach o achosion.

### **Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau**

Roedd cynnwys a manylion y cofnodion am sefydliadau bwyd a gweithgareddau ymyrryd yn amrywio. Nid oedd bob amser yn bosibl sefydlu cwmpas ymyriadau a chywirdeb sgoriau risg gan nad oedd digon o wybodaeth wedi'i chasglu. Nid oedd ffurflenni arolygu bob amser ar gael. Mae cofnodion manwl yn sylfaenol bwysig gan eu bod yn cynorthwyo i greu darlun llawn o hanes cydymffurfiaeth busnes a, lle y bo'n briodol, dull graddoledig o orfodi.

### **Awdurdodiadau Swyddogion**

Roedd gan yr awdurdod swyddogion awdurdodedig o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 nad oedd ganddynt y cymwysterau priodol, yn benodol o ran ymyriadau safonau bwyd. Yn ogystal, nid oedd swyddogion wedi'u hawdurdodi'n gywir i orfodi deddfwriaeth yn ymwneud â bwyd wedi'i fewnforio.

**Samplu Bwyd**

Amlygodd yr archwiliad ddiffygion o ran prosesu a chofnodi camau a gymerwyd mewn ymateb i samplau bwyd anfoddfaol.

**Monitro Mewnol**

Er bod cofnodion cyfyngedig ar gael o fonitro mewnol ansoddol o ran hylendid bwyd, nid oedd gwaith monitro mewnol ansoddol wedi'i gynnal o ran safonau bwyd. Nid oedd y weithdrefn fonitro fewnol a ddatblygwyd yn ddiweddar wedi'i rhoi ar waith yn llawn gan yr awdurdod.

## Canfyddiadau'r Archwiliad

### 3 Trefniadaeth a Rheolaeth

#### *Fframwaith Strategol, Polisi a Chynllunio'r Gwasanaeth*

- 3.1 Roedd yr awdurdod yn gweithredu dull Cabinet o lywodraeth leol gyda Chyfansoddiad a oedd yn amlinellu trefniadau'r awdurdod ar gyfer gwneud penderfyniadau. O dan y Cyfansoddiad, roedd penderfyniadau am rai materion penodol wedi'u dirprwyo i swyddogion.
- 3.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd ar gyfer 2012/13 a oedd yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth a geir yn y Cytundeb Fframwaith. Roedd y Cynllun wedi'i gymeradwyo gan yr aelod perthnasol o'r Cabinet ym mis Awst 2012 ac roedd ar gael ar wefan yr awdurdod.
- 3.3 Nodau'r Gwasanaeth Diogelwch Bwyd, fel y'u hamlinellwyd yn y Cynllun Gwasanaeth, oedd ymdrechu i sicrhau bod yr holl fwyd a diod a fwriedir ar gyfer pobl sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin, ei werthu, ei fwriadu i'w werthu, neu ei fwyta/yfed yn y sir o ansawdd dilys ac yn rhydd rhag risg i iechyd a diogelwch y defnyddiwr. Yn ogystal, annog busnesau bwyd addas i sefydlu a datblygu o fewn ffiniau'r awdurdod er mwyn hybu datblygiad economaidd.
- 3.4 Roedd nifer o amcanion wedi'u hamlygu er mwyn cyflawni'r nodau hyn, sef:
- Hybu arferion cyson a diogel o ran cynhyrchu a gwerthu bwyd yn yr holl safleoedd bwyd yn y sir;
  - Ceisio sicrhau bod bwydydd a weithgynhyrchir ac a werthir yn y sir yn cael eu disgrifio'n gywir;
  - Darparu gwasanaeth ymchwilio i'r holl gwynion yn ymwneud â chynhyrchion bwyd sy'n halogedig neu islaw'r safon, a chwynion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, fel safonau hylendid gwael ac ati, a gwneud hynny mewn modd proffesiynol a phrydlon;
  - Ymchwilio i achosion a amheuir neu a gadarnhawyd o salwch cysylltiedig â bwyd, a rhoi rheolaethau effeithiol ar waith sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
  - Gweithio fel partner i'r Asiantaeth Safonau Bwyd wrth ymateb i rybuddion bwyd;

- Gweithio gyda masnach i annog a rhoi cyngor ar gyflawni safonau uchel o ran hylendid ac ansawdd a labelu bwyd;
- Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill i hybu arferion gorfodi da e.e. y grŵp cyswllt bwyd sy'n hybu cysondeb ar draws ardal de-ddwyrain Cymru;
- Cymryd rhan mewn arolygon lleol a chenedlaethol (e.e. arolygon bwyd Gwasanaethau Rheoleiddio Llywodraeth Leol) a mentrau hybu iechyd lle y bo'n briodol.

3.5 Amlinellwyd nodau strategol yr awdurdod yn y Strategaeth Gymunedol. Cydnabuwyd y cyfraniad a wnaed gan y gwasanaeth bwyd at y nodau strategol canlynol yn y Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd;

- Iechyd a lles
- Amgylchedd gwell
- Cymunedau cryfach a mwy diogel
- Datblygiad economaidd lleol
- Profiad a dysgu gydol oes

3.6 Rhoddwyd manylion am broffiliau risg busnesau bwyd yn Sir Fynwy o ran hylendid bwyd a safonau bwyd, a'r ymyriadau y dylid bod wedi'u cynnal yn 2012/13, yng Nghynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd yr awdurdod ar gyfer 2012/13:

**Sgoriau risg hylendid bwyd:**

Categori risg safleoedd	Nifer y safleoedd	Ymyriadau y dylid bod wedi'u cynnal 2012/13
A	9	9
B	100	100
C	495	300
D	120	66
E	287	56 (rheolaeth swyddogol) 28 (strategaeth orfodi amgen)
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,011</b>	<b>559</b>

**Sgoriau risg safonau bwyd:**

Categori risg safleoedd	Nifer y safleoedd	Ymyriadau y dylid bod wedi'u cynnal 2012/13
Uchel	0	0
Canolig	628	355
Isel	384	176
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,012</b>	<b>531</b>

- 3.7 Sefydliadau bwyd categori A yw'r rhai hynny sydd â'r risg uchaf ac a ddylai fod yn destun ymyriadau bob chwe mis. Felly, nifer yr ymyriadau categori A y dylid bod wedi'u cynnal yn 2012/13 oedd 18.
- 3.8 Yn ogystal â'r ymyriadau y manylir arnynt uchod, cydnabu'r awdurdod yn ei Gynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd y byddai nifer o fusnesau newydd a gofrestrwyd y flwyddyn honno yn cael eu harolygu.
- 3.9 Polisi'r awdurdod oedd cynnal arolygiadau safonau bwyd ar yr un pryd ag arolygiadau hylendid bwyd. Nid oedd y Cynllun Gwasanaeth yn rhoi sylw i sut y byddai'r awdurdod yn sicrhau bod arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol yn y busnesau bwyd hynny a chanddynt sgoriau risg uchel neu ganolig o ran safonau bwyd a sgoriau risg isel o ran hylendid bwyd.
- 3.10 Rhoddwyd manylion am raglen samplu flynyddol yr awdurdod ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd yng Nghynllun y Gwasanaeth Diogelwch Bwyd. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan yn Arolwg Basged Siopa Cymru Gyfan.

- 3.11 Amlinellwyd y trefniadau ar gyfer monitro mewnol yng Nghynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd, ac roeddent yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaeth.
- 3.12 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn rhoi manylion am yr adnoddau staff sydd ar gael yn y Tîm Masnachol (7.3 cyfwerth ag amser llawn). Fodd bynnag, gan fod y tîm yn cyflawni dyletswyddau eraill heblaw am orfodi cyfraith bwyd, nid oedd yn eglur faint o'r adnodd hwn oedd ar gael i wneud gwaith hylendid bwyd a safonau bwyd. Yn ogystal, ni ddarparwyd amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni pob agwedd ar y cynllun darparu gwasanaeth.
- 3.13 Amcangyfrifwyd mai cost darparu gwasanaeth diogelwch bwyd a safonau bwyd ar gyfer 2012/13 oedd £353,000. Fodd bynnag, ni nodwyd a oedd hyn yn gynnydd neu'n ostyngiad net ar gostau 2011/12.
- 3.14 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn amlygu meysydd i'w gwella yn y gwasanaeth, fel gwella perfformiad o ran cynnal ymyriadau a gynlluniwyd o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad pryd y dylid bod wedi'u cynnal.
- 3.15 Roedd y Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd wedi cynnwys adolygiad o ddarparu'r gwasanaeth hylendid bwyd a safonau bwyd yn Adolygiad yr Adran Amddiffyn y Cyhoedd o Ganlyniadau a Gyflawnwyd yn 2011/12.

***Argymhelliad***

- 3.16 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod Cynlluniau'r Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn y dyfodol yn cydymffurfio'n llawn â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn arbennig, dylid cynnwys dadansoddiad o'r adnoddau sydd eu hangen o gymharu â'r rhai hynny sydd ar gael. [Y Safon – 3.1]

#### **4 Adolygu a Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau Cofnodedig**

- 4.1 Roedd gan yr awdurdod ystod o bolisiâu a gweithdrefnau cofnodedig yn ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd. Roedd sawl un o'r rhain wedi'u seilio ar dempledi a gynhyrchwyd ar y cyd gan Banel Technegol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, ac roedd eraill yn benodol i Sir Fynwy.
- 4.2 Roedd polisiâu a gweithdrefnau yn ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd ar gael ar safle mewnwyd yr awdurdod, sef 'Y Pwynt', ac ar gymhwysiad ar y we, sef System Reoli a Gwybodaeth Reoleiddio (RIAMS). Roedd RIAMS hefyd yn caniatáu i swyddogion gael gafael ar ddogfennau cyfeirio pwysig fel codau ymarfer a deddfwriaeth.
- 4.3 Er mwyn cynorthwyo swyddogion â'u gwaith gorfodi ffurfiol, roedd yr awdurdod wedi tanysgrifio i'r Llawlyfr Proses Orfodi a Chyfreithiol ar-lein. Datblygwyd y llawlyfr 'arfer da' hwn gan wasanaethau Safonau Masnach yn ne-orllewin Lloegr er mwyn rhoi arweiniad i swyddogion a rheolwyr ar y gweithdrefnau, y cofnodion a'r ffurflenni sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau ac erlyniadau.
- 4.4 Y Prif Swyddog oedd yn gyfrifol am ddatblygu ac adolygu polisiâu a gweithdrefnau cofnodedig a sicrhau bod dogfennau a ddisodlwyd yn cael eu symud o ddefnydd.
- 4.5 Roedd tystiolaeth yn dangos bod sawl gweithdrefn heb gael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn ogystal, nid oeddent wedi'u haddasu'n ddigonol i adlewyrchu arferion cyfredol yn Sir Fynwy.
- 4.6 Nid oedd gweithdrefnau gwaith yn cynnwys cyfeiriadau cyson at ystyriaethau prif awdurdod. Er enghraifft, nid oedd gweithdrefnau gorfodi'n cynnwys y gofyniad i ymgynghori â phrif awdurdodau cyn cyhoeddi hysbysiadau.

#### ***Argymhelliad***

- 4.7 Dylai'r awdurdod:
- (i) Adolygu'r holl weithdrefnau gwaith cofnodedig yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir sut y caiff y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd ei ddarparu yn ymarferol, gan gynnwys yr ystyriaethau prif awdurdod. [Y Safon – 4.1]



## **5 Swyddogion Awdurdodedig**

- 5.1 Roedd gan yr awdurdod Gofrestr Dirprwyaethau a oedd yn amlinellu'r swyddogaethau a ddirprwywyd i swyddogion. Sylwodd yr archwilwyr nad oedd y dirprwyaethau a oedd wedi'u sefydlu yn ddigonol i gwmpasu bwyd a fewnforiwyd y daliwyd gafael arno yn ôl y Rheoliadau.
- 5.2 Roedd gweithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion yn seiliedig ar eu cymwysterau, eu profiad a'u cymhwysedd wedi'i datblygu a'i rhoi ar waith. Cafodd y weithdrefn ei datblygu ar y cyd â Phanel Technol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru.
- 5.3 Yn dilyn asesiad cofnodedig o gymhwysedd gan y Prif Swyddog, roedd awdurdodiadau swyddogion eraill yn cael eu llofnodi gan y Prif Swyddog, Adfywio a Diwylliant a'r Rheolwr Amddiffyn y Cyhoedd.
- 5.4 Yn gyffredinol, o ran hylendid bwyd, roedd swyddogion yn gallu dangos eu bod wedi cael hyfforddiant a'u bod yn gymwys i gyflawni'r tasgau y'u hawdurdodwyd i'w cyflawni. Sylwodd yr archwilwyr fod Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Dan Hyfforddiant a oedd heb ei awdurdodi wedi cynnal ymweliadau dilysu â busnesau bwyd risg is.
- 5.5 O ran safonau bwyd, roedd Swyddogion Gwasanaethau Masnachol wedi'u hawdurdodi, ond nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni'r cymhwyster perthnasol. Dywedwyd wrth yr archwilwyr bod y swyddogion hyn wedi cael yr hyfforddiant perthnasol ond nad oeddent wedi ymgymryd â'r arholiadau neu'r asesiadau angenrheidiol eto. Roedd hyfforddiant perthnasol ychwanegol wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mai 2013.
- 5.6 Sylwodd yr archwilwyr fod samplau bwyd yn cael eu casglu gan swyddog samplu nad oedd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth wrth yr archwilwyr fod dyletswyddau'r swyddog wedi'u cyfyngu i brynu samplau bwyd fel rhan o Arolwg Basged Siopa Cymru, a bod gwaith dilynol ar samplau anfoddhaol a samplu ffurfiol yn cael ei wneud gan swyddogion a oedd wedi'u hawdurdodi'n briodol.
- 5.7 Roedd pawb, heblaw am un swyddog yn y Tîm Masnachol, wedi'u hawdurdodi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd o dan Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985. O ganlyniad i amryfusedd ar ran yr awdurdod, roedd dogfennau a ddaliwyd gan yr awdurdod yn dangos yn anghywir bod y swyddog hwn wedi'i awdurdodi.
- 5.8 Roedd gwiriadau dilysu'n cadarnhau bod swyddogion a chanddynt gyfrifoldeb arweiniol am hylendid bwyd a safonau bwyd yn meddu ar yr

wybodaeth, y cymwyseddau a'r hyfforddiant arbenigol i gyflawni eu rolau.

- 5.9 Nododd yr archwilwyr fod tri swyddog wedi cael hyfforddiant ar arolygu safleoedd i'w cymeradwyo o dan reoliad 853/2004 y Comisiwn Ewropeaidd.
- 5.10 Roedd gan yr awdurdod system o adolygiadau perfformiad blynyddol wedi'i sefydlu. Roedd y broses yn cynnwys trafodaeth ac amlygu anghenion hyfforddi swyddogion.
- 5.11 Nid oedd cofnodion hyfforddiant yn cael eu cynnal yn ganolog gan yr awdurdod, a oedd yn golygu ei bod yn anodd monitro p' un a oedd swyddogion yn derbyn y lefelau gofynnol o hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd swyddogion yn cynnal eu cofnodion hyfforddiant eu hunain ac yn gallu dangos y rhain cyn i'r elfen 'ar y safle' o'r archwiliad gael ei chwblhau.
- 5.12 Canfu adolygiad o gymwysterau a hyfforddiant swyddogion fod yr holl swyddogion wedi derbyn 10 awr o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn, fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer.
- 5.13 Roedd yr holl swyddogion wedi derbyn hyfforddiant ar egwyddorion ac arferion HACCP a hyfforddiant cysondeb Atodiad 5.
- 5.14 Roedd yr holl swyddogion yn gallu dangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant gorfodi ffurfiol.
- 5.15 Gan nad oedd yr awdurdod wedi amcangyfrif nifer y swyddogion awdurdodedig yr oedd eu hangen i gyflawni'r gwaith a amlinellwyd yn y cynllun darparu gwasanaeth, nid oedd yr archwilwyr yn gallu sefydlu p'un a oedd nifer y staff a neilltuwyd i weithgareddau hylendid bwyd a safonau bwyd yn ddigonol o ystyried agweddau meintiol ac ansoddol y gwasanaeth.

### **Argymhellion**

- 5.16 Dylai'r awdurdod:
- (i) Adolygu'r Cynllun Dirprwyo i gynnwys y pŵer i ddal gafael ar fwydydd a fewnforiwyd. [Y Safon – 5.1]
- (ii) Adolygu a diweddarau awdurdodiadau swyddogion fel y bo'r angen er mwyn sicrhau bod yr holl swyddogion wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u

cymwyseddau. [Y Safon – 5.1 a 5.3]

- (iii) Cynnal cofnodion o gymwysterau academiaidd neu gymwysterau eraill perthnasol, hyfforddiant a phrofiad pob swyddog awdurdodedig a staff cymorth priodol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.5]

## 6 Cyfleusterau ac Offer

- 6.1 Roedd yr awdurdod wedi sicrhau bod y cyfleusterau a'r offer angenrheidiol ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn effeithiol.
- 6.2 Roedd gweithdrefnau ar gyfer graddnodi thermomedrau wedi'u datblygu er mwyn sicrhau bod offer yn cael ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi'n gywir, a'i symud o wasanaeth pe ganfyddid ei fod yn ddiffygiol. Roedd lefelau goddefiant wedi'u datgan yn benodol ynghyd â'r camau i'w cymryd pe byddent yn cael eu torri.
- 6.3 Y Swyddog Gwasanaethau Masnachol oedd yn gyfrifol am gynnal cofnodion graddnodi, sicrhau bod offer yn cael ei raddnodi a'i farcio gyda'i statws graddnodi, a sicrhau bod diffygion yn cael eu cofnodi ac offer diffygiol yn cael ei labelu a'i symud o ddefnydd.
- 6.4 Roedd tystysgrifau graddnodi dilys ar gael ar gyfer yr holl offer monitro tymheredd a ddefnyddiwyd at ddibenion gorfodi ac roedd cofnodion priodol wedi'u cadw.
- 6.5 Roedd swyddogion wedi cael thermomedrau is-goch a thermomedrau profi. Roedd thermomedr cyfeirio ar gael hefyd a oedd yn cael ei ddefnyddio'n briodol.
- 6.6 Roedd gan yr awdurdod system gyfrifiadurol a oedd yn cael ei defnyddio i gynnal cronfa ddata safleoedd bwyd a chofnodi'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cynhaliwyd nifer o brofion yn ystod yr archwiliad a gadarnhaodd fod y gronfa ddata'n cael ei gweithredu mewn modd a oedd yn golygu y gellid cynhyrchu adroddiadau cywir.
- 6.7 Yn y ffurflen System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) a gyflwynwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer 2011/12, roedd yr awdurdod wedi adrodd bod 7.3 swyddog cyfwerth ag amser llawn ar gael i wneud gwaith hylendid bwyd, a bod 7.3 swyddog cyfwerth ag amser llawn ar gael i wneud gwaith safonau bwyd. Gan mai'r un aelodau staff oedd y rhain (yr adroddwyd eu bod yn ymgymryd â gwaith iechyd a diogelwch hefyd), dylid cywiro'r anghysondeb hwn mewn ffurflenni yn y dyfodol.
- 6.8 Cydnabu'r archwilwyr fod yr awdurdod wedi cael problemau yn y gorffennol o ran cadarnhau cywirdeb y ffurflenni monitro a gyflwynwyd i'r Asiantaeth ar LAEMS. Roedd y Prif Swyddog wedi bod yn rhagweithiol, gan weithio gyda darparwr y feddalwedd a'r Asiantaeth mewn ymgyais i ddatrys y problemau hyn.

- 6.9 Roedd Swyddog Cymorth Busnes yn darparu adroddiadau rheoli a pherfformiad rheolaidd o'r gronfa ddata a chymorth hollbwysig wrth ddarparu data ar gyfer ffurflen LAEMS yr awdurdod.
- 6.10 Roedd gan yr awdurdod fesurau diogelwch digonol wedi'u sefydlu i atal unigolion anawdurdodedig rhag cael mynediad at y system.
- 6.11 Roedd systemau wrth gefn wedi'u sefydlu i leihau cymaint â phosibl ar y risg o golli gwybodaeth o'r gronfa ddata a ffeiliau electronig a ddefnyddiwyd i gadw gwybodaeth allweddol.

## **7 Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd**

### ***Hylendid Bwyd***

- 7.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod ar gyfer 2012/13 yn datgan bod 1,365 o fusnesau bwyd yn ei ardal yn destun ymyriadau hylendid bwyd. Roedd hyn yn cynnwys safleoedd a oedd wedi'u cofrestru gan yr awdurdod a safleoedd anghofrestredig e.e. masnachwyr marchnad a oedd wedi'u cofrestru mewn man arall.
- 7.2 Yn 2011/12, adroddodd yr awdurdod trwy LAEMS fod 99.80% o'r busnesau bwyd yng nghategori A-E y dylid bod wedi'u harolygu wedi cael eu harolygu, a bod 82.65% o'r busnesau bwyd yn 'cydymffurfio'n fras' â deddfwriaeth hylendid bwyd (ac eithrio busnesau heb eu sgorio a'r rhai hynny sydd y tu allan i gwmpas y cynllun sgorio risg).
- 7.3 Roedd gan yr awdurdod Weithdrefn Ymyriadau ac Ailymweliadau â Safleoedd gofnodedig a oedd yn ceisio sefydlu dull unffurf o gynnal ymyriadau hylendid bwyd. Fodd bynnag, nid oedd y broses o'i haddasu o weithdrefn gyffredinol i un benodol ar gyfer yr awdurdod wedi'i chwblhau.
- 7.4 Nid oedd y weithdrefn yn cynnwys defnyddio Strategaethau Gorfodi Amgen ar gyfer sefydliadau categori E.
- 7.5 Roedd yr awdurdod yn rheoli ei raglen ymyriadau a gynlluniwyd mewn modd rhagweithiol. Cyn yr archwiliad, roedd yr awdurdod wedi adrodd bod 25 busnes bwyd ar ei gronfa ddata a oedd yn aros am gael arolygiad cynradd.
- 7.6 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ffurflen cofnodi arolygiad cyffredinol, ffurflen arolygiad rhannol a thaflen crynodeb o adroddiad arolygu. Roedd Ffurflen Arolygu Siop Cigydd wedi'i datblygu hefyd. Ar adeg yr archwiliad, roedd y ffurflenni arolygu a ddefnyddiwyd yn cael eu hadolygu gan yr awdurdod yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.
- 7.7 Archwiliwyd y cofnodion yn ymwneud â saith safle bwyd. Roedd eu hanes arolygu'n cadarnhau bod pump o'r saith wedi cael eu harolygu ar yr amllder gofynnol yn ystod y blynyddoedd diweddar. Roedd y safleoedd nad oeddent wedi'u harolygu ar yr amllder gofynnol yn safleoedd categori C a D. Arolygwyd y safle categori D mwy na thri mis ar ôl y dyddiad y dylid bod wedi'i arolygu. Er yr arolygwyd y safle categori C mwy na mis ar ôl y dyddiad y dylid bod wedi'i arolygu, dywedwyd wrth yr archwilwyr bod ymweliad wedi'i gynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y dylid bod wedi cynnal yr arolygiad, ond ni ellid cadarnhau hyn. Ni allai'r swyddog

gael mynediad i'r busnes ar yr adeg hon. Mae'r Cod Ymarfer yn mynnu bod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiadau y dylid bod wedi'u cynnal.

- 7.8 Roedd cydymffurfiaeth y safleoedd hynny yr oedd cofnodion ymyriad ar gael ar eu cyfer wedi'u hasesu yn unol â'r safonau a ragnodir yn ôl y gyfraith yn gyffredinol. Fodd bynnag, mewn dau achos, nid oedd busnesau wedi'u hasesu'n ddigonol yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.
- 7.9 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i'r safleoedd yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiadau mewn chwech o'r saith achos. Mewn un achos, ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael, roedd sgôr risg anghywir wedi'i rhoi. Lle y rhoddwyd sgôr risg anghywir, nid oedd unrhyw oblygiadau i iechyd y cyhoedd gan y byddai wedi bod yn ofynnol cynnal ymyriadau'n amlach yn hytrach nag yn llai aml.
- 7.10 Pan oeddent ar gael i'r archwilwyr, roedd y nodiadau arolygu a'r wybodaeth arolygu arall a gofnodwyd gan swyddogion ar adeg yr arolygiad yn ddarllenadwy.
- 7.11 Nid oedd modd adalw cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau a gwybodaeth allweddol arall yn gyson. O ran y saith ffeil hylendid a archwiliwyd, roedd enghreifftiau o wybodaeth nad oedd ar gael yn cynnwys hanes arolygu safleoedd, adroddiadau arolygu a chofnodion ailymweliad. Nododd yr archwilwyr fod yr awdurdod yn symud oddi wrth system o gadw copïau caled o ffeiliau i system o reoli dogfennau'n electronig. Fodd bynnag, nid oedd system gwbl electronig wedi'i rhoi ar waith. Dywedwyd wrth yr archwilwyr bod copïau caled o wybodaeth wedi'u harchifo yn dilyn ad-drefnu strwythurol diweddar. Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi'u catalogio mewn ffordd a oedd yn hwyluso mynediad rhydd atynt.
- 7.12 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn gofnodedig ar wahân ar gyfer cymeradwyo ac arolygu sefydliadau sy'n ddarostyngedig i reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch.
- 7.13 Roedd yr awdurdod wedi datgan cyn yr archwiliad bod naw sefydliad cymeradwy yn ei ardal. Archwiliwyd ffeiliau pedwar sefydliad cymeradwy. Sylwodd yr archwilwyr fod yr wybodaeth a oedd ar gael ar gyfer pob sefydliad yn amrywio, ond nid oedd yr un o'r pedair ffeil yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.
- 7.14 Roedd rhai ffurflenni arolygu penodol i gynnyrch ar gael i gynorthwyo swyddogion i gynnal arolygiadau cynhwysfawr o safleoedd cymeradwy.

Sylwodd yr archwilwyr nad oedd y ffurflen arolygu penodol i gynnyrch llaeth wedi'i defnyddio'n gyson ac nad oedd yr wybodaeth ddiweddaraf yn ymwneud ag arolygiad a gynhaliwyd tri mis cyn yr archwiliad yn cael ei storio mewn modd y gellid ei hadalw'n rhwydd.

- 7.15 Yn gyffredinol, nid oedd yr wybodaeth a gofnodwyd ar ffurflenni arolygu safleoedd cymeradwy yn ddigon manwl. Byddai'n fuddiol i'r awdurdod ddefnyddio ffurflenni arolygu priodol, penodol i gynnyrch, er mwyn cynorthwyo swyddogion i sicrhau bod pob agwedd ar reolaethau swyddogol yn cael eu hystyried a'u cofnodi'n ddigon manwl.
- 7.16 Yn gyffredinol, nid oedd yn bosibl cadarnhau nac asesu cwmpas ymyriadau mewn sefydliadau cymeradwy, na bod ymyriadau priodol yn cael eu cynnal ym mhob achos, oherwydd diffyg manylion ar ffurflenni arolygu, mewn llyfrau nodiadau arolygwyr a/neu ar y gronfa ddata.
- 7.17 Er bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi mewn modd amserol yn gyffredinol, sylwodd yr archwilwyr fod cymeradwyaeth wedi'i rhoi'n gychwynnol i un sefydliad y diwrnod cyn i'r cais am gymeradwyaeth gael ei wneud. Mewn achos arall, roedd cymeradwyaeth amodol wedi'i rhoi, ond fe'i hystyngwyd ar ôl tri mis heb unrhyw dystiolaeth fod arolygiad wedi'i gynnal, fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Rhoddwyd cymeradwyaeth lawn i'r sefydliad yn dilyn arolygiad arall.
- 7.18 Roedd y Weithdrefn Ymyriadau ac Ailymweliadau yn datgan y dylai ailymweliadau gael eu cynnal â safleoedd bwyd a oedd wedi methu â chydymffurfio â gofynion statudol arwyddocaol. Yn yr wyth achos a archwiliwyd, nid oedd angen ailymweliadau mewn tri achos. Mewn dau achos, roedd ailymweliadau wedi'u cynnal. Mewn un achos, nid oedd yn bosibl pennu o'r dystiolaeth a oedd ar gael p'un a gydymffurfiwyd â Hysbysiad Gwella Hylendid. Yn y ddau achos a oedd yn weddill, nid oedd dystiolaeth ar gael o'r ailymweliadau a oedd yn ofynnol. Dewiswyd deg sefydliad bwyd arall a gyflawnodd sgôr hylendid bwyd o 0, 1, neu 2 o gronfa ddata'r cynllun sgorio hylendid bwyd cenedlaethol. Roedd dystiolaeth o ailymweliadau ar gael mewn saith achos.
- 7.19 Yn gyffredinol, roedd swyddogion wedi cymryd camau priodol, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod, pan amlygwyd diffyg cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, mewn un achos, roedd Hysbysiad Gwella Hylendid wedi'i roi mewn perthynas â bwyd risg uchel a oedd wedi'i arddangos i'w werthu yn groes i ofynion rheoli tymheredd. Nid oedd yr awdurdod wedi cofnodi p'un a oedd unrhyw gamau eraill wedi'u cymryd ar adeg yr arolygiad mewn perthynas â'r bwyd hwn.
- 7.20 Roedd yr awdurdod wedi datblygu rhaglen o strategaethau gorfodi amgen ar gyfer busnesau bwyd categori E. Fodd bynnag, nid oedd hyn



wedi'i adlewyrchu yn y weithdrefn ymyriadau. Roedd y strategaeth arolygu amgen yn cynnwys cwblhau holiadur naill ai yn ystod ymweliad neu dros y ffôn. Canfuwyd bod yr holiadur yn ddigon cynhwysfawr i gasglu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y strategaeth orfodi amgen.

- 7.21 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud ag wyth safle yr adroddwyd eu bod yn ddarostyngedig i strategaethau gorfodi amgen. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y strategaeth orfodi amgen wedi'i chyflawni'n brydlon, ond roedd un o'r holiaduron dros y ffôn wedi'i gwblhau pedwar mis ar ôl y dyddiad pryd y dylid bod wedi cynnal yr ymyriad. Canfuwyd bod un o'r safleoedd wedi'i arolygu. Fodd bynnag, cynhaliwyd yr arolygiad mwy na phedwar mis ar ôl y dyddiad pryd y dylid bod wedi'i gynnal.
- 7.22 Roedd delweddau wedi'u sganio o'r holiadur ar gael yn ffeiliau'r safleoedd mewn chwe achos, a oedd yn golygu bod modd eu hadalw'n rhwydd. Roedd un o'r holiaduron nad oedd ar gael mewn fformat wedi'i sganio, ond daethpwyd o hyd i'r copi caled wedi hynny. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod y saith holiadur a gwblhawyd gan staff nad oeddent wedi'u hawdurdodi o dan ddeddfwriaeth diogelwch bwyd wedi'u hadolygu gan swyddog â chymwysterau ac awdurdodiad priodol. Mewn un achos, roedd newid mewn gweithgareddau yn y safle yn golygu bod angen cymryd camau dilynol, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth fod hyn wedi digwydd.

### **Argymhellion**

- 7.23 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safleoedd bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]
  - (ii) Cynnal ymyriadau / arolygiadau, a chymeradwyo sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]
  - (iii) Cymryd camau priodol yn sgil unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfiaeth a ganfyddir, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3]
  - (iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4]
  - (v) Storio cofnodion cyfoes o ymyriadau mewn ffordd sy'n golygu bod modd eu hadalw'n rhwydd. [Y Safon – 7.5]

### *Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd*

- 7.24 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd dau ymweliad dilysu hylendid â sefydliadau bwyd gyda'r swyddogion awdurdodedig a gynhaliodd yr arolygiadau hylendid bwyd diwethaf o'r sefydliadau. Prif amcan yr ymweliadau oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth busnes bwyd â gofynion cyfraith bwyd.
- 7.25 Roedd gan y swyddogion lawer o wybodaeth am y safleoedd, ac roeddent yn dangos dealltwriaeth o'r risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau yn y safleoedd. Yn gyffredinol, roedd y swyddogion wedi cynnal arolygiad trylwyr ac wedi asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol yn briodol, er yr amlygwyd materion o ran cymhwysu canllawiau a gyhoeddir yn ganolog yn ystod yr arolygiad diweddaraf.
- 7.26 Yn ystod un o'r ymweliadau, sylwodd yr archwilydd fod perchennog y busnes bwyd yn gwneud cynnydd araf tuag at fodloni gofynion canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, yn benodol o ran cynllun y safle a llifoedd gwaith. Roedd yr awdurdod yn derbyn y gallai fod yn briodol ystyried dewisiadau gorfodi ehangach er mwyn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

### **Safonau Bwyd**

- 7.27 Roedd Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd yr awdurdod ar gyfer 2012/13 yn datgan bod cyfanswm o 1,012 o fusnesau bwyd yn ei ardal a oedd yn destun ymyriadau safonau bwyd. Er y dylid cynnal ymyriad mewn perthynas â 531 ohonynt yn ystod 2012/13, adroddwyd y byddai safleoedd bwyd yn Sir Fynwy yn derbyn ymyriad safonau bwyd ar adeg pob ymweliad hylendid bwyd. Roedd yr awdurdod wedi adrodd trwy LAEMS bod 569 o ymyriadau safonau bwyd wedi'u cynnal yn 2011/12, a oedd yn cynrychioli 100% o'r ymyriadau safonau bwyd y dylid bod wedi'u cynnal.
- 7.28 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer ymyriadau safonau bwyd, ond nid oedd ganddo bolisi na gweithdrefn ar ddefnyddio strategaethau gorfodi amgen.
- 7.29 Cynhaliwyd archwiliadau tân mewn 10 safle a fu'n destun ymyriad. Roedd un safle risg ganolog wedi bod yn destun strategaeth orfodi amgen er gwaethaf y ffaith y dylai fod wedi cael arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad. Gan fod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar yr un amllder ag ymyriadau hylendid bwyd, gallai'r sefyllfa hon godi eto mewn unrhyw safle hylendid bwyd risg isel sydd â sgôr risg

uwch o ran safonau bwyd. Er mwyn sicrhau bod ymyriad priodol yn cael ei gynnal, byddai'n fuddiol i'r awdurdod amlygu safleoedd o'r fath ar ddechrau pob blwyddyn. Mewn achos arall, nid oedd yr arolygiad wedi'i gynnal ar yr amllder cywir ac nid oedd gwybodaeth yn ymwneud â'r arolygiad wedi'i storio mewn modd a oedd yn golygu y gellid ei adalw'n rhwydd.

- 7.30 Roedd ystod o ffurflenni arolygu'n cael eu defnyddio, gan gynnwys ffurflen gyffredinol, ffurflen siop cigydd a ffurflen arolygiad rhannol a ddefnyddiwyd ar gyfer safleoedd dros dro, fel stondinau marchnad. Nid oedd y ffurflen siop cigydd yn cynnwys cyfeiriad at safonau bwyd. Nid oedd yr wybodaeth a gasglwyd yn y rhannau safonau bwyd o'r ffurflenni arolygu cyffredinol a stondinau marchnad yn gyson, ac yn gyffredinol nid oedd yn ddigon manwl er mwyn cynorthwyo i lywio:
- Adolygiadau dilynol
  - Dull graddoledig a chyson o orfodi
  - Monitro mewnol effeithiol
- 7.31 Yn gyffredinol, nid oedd yn bosibl cadarnhau nac asesu cwmpas ymyriadau, na bod arolygiadau ac ymyriadau priodol wedi'u cynnal ym mhob achos, gan nad oedd swyddogion yn cofnodi digon o fanylion ar y ffurflenni arolygu, yn eu llyfrau nodiadau a/neu ar y gronfa ddata.
- 7.32 Yn gyffredinol, nid oedd sgoriau risg safonau bwyd wedi'u cymhwyso'n gyson. Mewn tri o'r 10 ffeil safleoedd a archwiliwyd, rhoddwyd sgôr risg anghywir i'r safle. Mewn dau o'r achosion hyn, roedd sgôr risg is wedi'i rhoi i'r safleoedd nag y dylent bod wedi'i chael. Yn y trydydd, roedd agweddau ar y sgôr risg yn amhriodol o ystyried y gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal, ond roedd y categori risg cyffredinol yn gywir. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod sgoriau risg yn cael eu monitro'n fewnol.
- 7.33 Rhoddwyd adroddiadau a ysgrifennwyd â llaw i weithredwyr busnes bwyd ar ôl arolygiadau ac roedd copïau carbon o'r adroddiadau'n cael eu cadw ar ffeil. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn rhestru achosion o dorri'r rheoliadau a'r mesurau yr oedd angen eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth, ond nid oeddent bob amser yn adlewyrchu cwmpas yr arolygiad nac yn gwahaniaethu'n eglur rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da. Yn ogystal, ni roddwyd syniad o'r graddfeydd amser ar gyfer cyflawni cydymffurfiaeth i fusnesau bwyd. Mewn dwy ffeil, roedd rhai rhannau o'r ffurflenni copi carbon a ysgrifennwyd â llaw yn annarllenadwy.
- 7.34 Roedd polisi'r awdurdod ar ailymweliadau safonau bwyd wedi'i amlygu yn y weithdrefn ar gyfer Ymyriadau Safonau Bwyd. Roedd achosion

arwyddocaol o dorri'r rheoliadau wedi'u hamlygu ar ddwy o'r ffeiliau, ond nid oedd tystiolaeth fod ailymweliadau wedi'u cynnal.

- 7.35 Roedd safleoedd â sgoriau risg isel o ran safonau bwyd yn destun cymysgedd o ymweliadau ac ymholiadau dros y ffôn. Roedd rhaglen ymyriadau'r strategaeth orfodi amgen ar gyfer pob safle bwyd yn cael ei llywio gan y sgôr risg hylendid bwyd.

### **Argymhellion**

- 7.36 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau safleoedd bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]
  - (ii) Cynnal arolygiadau/ymyriadau mewn sefydliadau bwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a Chanllawiau Ymarfer, gan gynnwys defnyddio ffurflenni arolygu priodol. [Y Safon – 7.2]
  - (iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau a gynhelir ganddo. [Y Safon – 7.4]
  - (iv) Cofnodi arsylwadau a data a gafwyd o ymyriadau mewn modd amserol er mwyn atal eu colli a sicrhau bod cofnodion cyfoes yn ddarllenadwy a bod modd eu hadalw. [Y Safon – 7.5]

### *Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd*

- 7.37 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliad dilysu â busnes bwyd gyda'r un swyddog awdurdodedig a gynhaliodd yr arolygiad safonau bwyd diwethaf o'r safle. Prif amcan yr ymweliad oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth busnes bwyd â gofynion cyfraith bwyd.
- 7.38 Roedd y swyddog yn wybodus ynglŷn â'r safle a'r gweithrediadau a gynhaliwyd. Roedd yn amlwg bod y swyddog yn gymwys i gynnal arolygiad safonau bwyd trylwyr. Nid oedd cofnodion yr arolygiad yn cynnwys digon o fanylion i ddangos bod arolygiad safonau bwyd cynhwysfawr wedi'i gynnal.

## **8 Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd**

- 8.1 Roedd yr awdurdod wedi mabwysiadu'r Polisi Cwynion am Fwyd / Bwyd Anifeiliaid a'r Weithdrefn Gwyno am Fwyd / Bwyd Anifeiliaid a ddatblygwyd gan Banel Technegol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru. Roedd gweithdrefn ar wahân wedi'i datblygu'n ddiweddar i ymdrin â chwynion am sefydliadau busnes bwyd.
- 8.2 Roedd taflen ar gael a oedd yn amlygu rhai cwynion cyffredin am fwyd, ynghyd ag esboniad byr o'r ffordd orau o weithredu, ac roedd modd cyflwyno cwynion yn electronig ar wefan yr awdurdod.
- 8.3 Nid oedd yr amser ymateb targed ar gyfer ymateb i gwynion wedi'i nodi yn y polisi cwynion na'r weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, dywedwyd wrth yr archwilwyr mai'r amser ymateb targed oedd tri diwrnod gwaith.
- 8.4 Archwiliwyd cofnodion 10 cwyn hylendid bwyd a 10 cwyn safonau bwyd.

### ***Hylendid Bwyd***

- 8.5 Ymatebwyd i naw cwyn o fewn yr amser ymateb targed o 3 diwrnod gwaith, ac ymatebwyd i un o fewn saith diwrnod gwaith. Roedd ymchwiliadau priodol wedi'u cynnal ym mhob achos, ac roedd camau priodol, gan gynnwys cau'n wirfoddol, wedi'u cymryd.
- 8.6 Roedd cofnodion cynhwysfawr am gwynion y gellid eu hadalw'n rhwydd yn cael eu cynnal ar y gronfa ddata safleoedd bwyd.
- 8.7 Ym mhob achos, roedd yr achwynwyr wedi cael gwybod am ganlyniad yr ymchwiliadau.

### ***Safonau Bwyd***

- 8.8 Ymatebwyd i'r holl gwynion o fewn yr amser ymateb targed.
- 8.9 Roedd un gŵyn yn ymwneud â honiad camarweiniol o bosibl fod cynnyrch yn gynnyrch cartref. Ystyriwyd hyn gan y swyddog ymchwilio a phenderfynwyd peidio ag ymchwilio ar y sail y byddai'r mater yn derbyn sylw yn ystod yr arolygiad nesaf a oedd i'w gynnal 17 mis yn ddiweddarach. Ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, nid oedd yr archwilwyr yn fodlon bod hyn yn gyfystyr ag ymchwiliad priodol. Yn ogystal, nid oedd polisi a gweithdrefn yr awdurdod ar gwynion yn caniatáu'r hyblygrwydd hwn.
- 8.10 Roedd dwy gŵyn yn ymwneud â materion a allai fod wedi arwain at oblygiadau diogelwch bwyd ehangach. Er bod camau wedi'u cymryd ar

lefel leol, ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, nid oedd yr archwilwyr yn fodlon bod camau dilynol digonol wedi'u cymryd i sefydlu goblygiadau ehangach y cwynion.

### ***Argymhellion***

8.11 Dylai'r awdurdod:

- (i) Adolygu a diweddarau'r polisi a'r weithdrefn gofnodedig i gynnwys canllawiau ar gyfer swyddogion ar amseroedd ymateb targed. [Y Safon – 8.1]
- ii) Ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2]

## **9 Cynllun y Prif Awdurdod a'r Egwyddor Awdurdod Cartref**

- 9.1 Dangosodd yr awdurdod ymrwymiad cryf i Gynllun y Prif Awdurdod. Roedd Cynllun y Gwasanaeth Diogelwch Bwyd ar gyfer 2012/13 yn datgan bod 'Cyngor Sir Fynwy yn cymryd camau pendant i sefydlu Partneriaethau Prif Awdurdod â busnesau priodol'.
- 9.2 Roedd nifer y busnesau yr oedd yr awdurdod wedi cytuno i weithredu fel Prif Awdurdod ar eu cyfer wedi cynyddu o bedwar ar yr adeg y cymeradwywyd y Cynllun Gwasanaeth i bump ar adeg yr archwiliad.
- 9.3 Er bod Cytundebau Prif Awdurdod wedi'u llofnodi gan yr awdurdod a busnesau, nid oedd Cynlluniau Arolygu wedi'u datblygu.
- 9.4 Dangosodd cofnodion yr edrychwyd arnynt yn ystod yr archwiliad fod yr awdurdod yn gweithredu Cynllun y Prif Awdurdod / yr Egwyddor Awdurdod Cartref, gan ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth gan fusnesau ac awdurdodau eraill.
- 9.5 Roedd swyddogion yn gallu cael mynediad at wefan y Prif Awdurdod a chronfa ddata Awdurdod Cartref LACORS, ac felly gallent ganfod cysylltiadau awdurdodau lleol, Prif Awdurdodau ac Awdurdodau Cartref.

## **10 Cyngor i Fusnesau**

- 10.1 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran rhoi cyngor a chymorth i fusnesau. Dangosodd ei ymrwymiad i gynorthwyo busnesau lleol i gydymffurfio â'r gyfraith trwy gyflwyno nifer o fentrau, a oedd yn cynnwys:
- Cyngor a hyfforddiant ar HACCP;
  - Gweithdai 'Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell'
- 10.2 Yn 2012, roedd yr awdurdod, ar y cyd â'r Swyddfa Rheoliadau Gwell (BRDO), wedi hwyluso Arolwg Busnes Bwyd er mwyn cael gwell syniad o farn busnesau am y gwasanaeth a ddarperir. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 77% o fusnesau'n adrodd bod Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng anogaeth, gorfodi ac addysg.
- 10.3 Roedd cyngor technegol yn cael ei roi i fusnesau yr oedd yn gweithredu fel Prif Awdurdod ar eu cyfer.
- 10.4 Roedd cyngor busnes yn cael ei roi ar wefan yr awdurdod, gan gynnwys gwybodaeth am:
- Labelu bwyd
  - Rheoli tymheredd
  - Safleoedd cymeradwy
  - Samplu bwyd
  - Cofrestru safleoedd bwyd
  - Hylendid bwyd ac arolygiadau
  - Manylion cyswllt darparwyr hyfforddiant hylendid bwyd lleol
- 10.5 Roedd tystiolaeth fod cyngor yn cael ei roi i fusnesau yn ystod arolygiadau yn ogystal ag ar gais.



## **11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd**

- 11.1 Roedd gan yr awdurdod gronfa ddata electronig o safleoedd a oedd yn destun gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn ei ardal.
- 11.2 Y Gweinyddwr Systemau oedd yn gyfrifol am greu cyfrifon a chyfrineiriau ar gyfer defnyddwyr y gronfa ddata ac, ar y cyd â'r Prif Swyddog, ef/hi oedd yn rheoli lefel y mynediad a roddwyd i swyddogion. Roedd lefelau diogelwch wedi'u gosod gan y Gweinyddwr Systemau yn unol â chanllawiau gan ddarparwr y feddalwedd.
- 11.3 Roedd gweithdrefn wedi'i chofnodi ac yn cael ei rhoi ar waith gyda'r nod o gynnal cywirdeb a chyflawnder y gronfa ddata. Roedd y weithdrefn yn cynnwys gwiriadau gan swyddogion a oedd yn cynnal ymweliadau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol, ac ymholi'r system yn rheolaidd gan y gweinyddwr systemau a staff cymorth i amlygu unrhyw anghysondebau, codau ar goll, safleoedd dyblyg ac ati. Roedd cofnodion yn cael eu diweddarau ar ôl derbyn gwybodaeth fel cwynion, post wedi'i ddychwelyd a gwybodaeth a dderbyniwyd gan adrannau eraill o'r awdurdod hefyd.
- 11.4 Roedd y weithdrefn yn rhoi arweiniad ar fewnbynnu data, cau safleoedd a chofnodi safleoedd newydd.
- 11.5 Roedd y weithdrefn yn datgan bod y gronfa ddata'n cael ei hategu bob dydd gan is-adran TG yr awdurdod er mwyn sicrhau nad oedd data'n cael ei golli.
- 11.6 Dewisodd yr archwilwyr 12 busnes bwyd ar hap o'r rhyngwryd a oedd wedi'u lleoli yn ardal yr awdurdod. Roedd pob un o'r 12 busnes wedi'u cofnodi ar y gronfa ddata ac wedi'u cynnwys yn rhaglenni ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd cynlluniedig yr awdurdod.

## **12 Arolygu a Samplu Bwyd**

- 12.1 Roedd gan yr awdurdod gyllideb ar gyfer samplu bwyd ac roedd wedi datblygu polisi a gweithdrefn samplu bwyd a oedd yn rhoi arweiniad ar samplu bwyd yn ffurfiol ac yn anffurfiol.
- 12.2 Roedd y rhaglen samplu ar gyfer 2012/13 wedi'i chynnwys yng Nghynllun y Gwasanaeth Diogelwch Bwyd ar gyfer 2012/13. Roedd yn amlygu pryd y byddai samplau'n cael eu cymryd ynghyd â natur a nifer y samplau. Roedd y rhaglen yn cynnwys samplu hylendid bwyd a safonau bwyd.
- 12.3 Roedd y rhaglen samplu hylendid bwyd flynyddol yn cynnwys cyfranogiad yn Arolwg Basged Siopa Cymru.
- 12.4 Sylwodd yr archwilwyr nad oedd y rhaglen samplu'n cynnwys Blaenoriaethau Samplu Cenedlaethol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- 12.5 Mae'r awdurdod wedi derbyn grant gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gynorthwyo i ddatblygu System Arolygu Bwyd y DU (UKFSS), ac roedd yn ymgymryd â rôl arweiniol ledled Cymru wrth ei rhoi ar waith.
- 12.6 Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo penodi ei Ddadansoddwr Cyhoeddus yn 2012.
- 12.7 Roedd y labordai a ddefnyddiwyd gan yr awdurdod ar gyfer archwilio samplau bwyd wedi'u hachredu'n briodol ac roeddent ar y rhestr o Labordai Swyddogol yr oedd Llywodraeth y DU wedi'i chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.
- 12.8 Archwiliwyd cofnodion 10 sampl a gymerwyd ar gyfer profion microbiolegol. Roedd canlyniadau'r samplu ar gael yn y ffeiliau ym mhob achos. Ni fu'n bosibl archwilio un o'r samplau oherwydd bod maint y sampl a gafwyd gan yr awdurdod yn annigonol.
- 12.9 Sylwodd yr archwilwyr fod saith o'r samplau wedi'u casglu gan swyddog samplu nad oedd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth sicrwydd i'r archwilwyr fod y samplau wedi'u prynu ac felly nad oedd angen awdurdodiad. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod camau dilynol priodol wedi'u cynnal mewn perthynas ag un sampl anfoddhaol.
- 12.10 O ran safonau bwyd, archwiliwyd cofnodion saith sampl a adroddwyd ar System Arolygu Bwyd y DU. Wrth ymchwilio, canfuwyd anghysondebau ym mhob un o'r saith sampl o ran prosesu gwybodaeth samplu a

arweiniodd at gasgliadau annilys gan y dadansoddwr. Nid oedd yr awdurdod wedi cofnodi gwybodaeth i esbonio'r anghysondebau hyn.

- 12.11 Ar adeg yr archwiliad, roedd lefel y gweithgarwch samplu a wnaed yn unol â'r rhaglen.

***Argymhellion***

12.12 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod ei raglen samplu gofnodedig yn cynnwys cyfeiriad at flaenoriaethau samplu cenedlaethol. [Y Safon – 12.4]
- (ii) Cynnal cofnodion samplu cywir a chyfredol ar ffurf y gellir ei hadalw'n rhwydd. [Y Safon – 16.1]
- (iii) Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn sgil canlyniadau samplu bwyd anfodhaol. [Y Safon – 12.7]

**13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd**

- 13.1 Roedd yr awdurdod wedi dynodi Swyddog Arweiniol ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy a oedd wedi mynychu digwyddiadau fel rhan o raglen Hyfforddi Swyddogion Arweiniol Cymru.
- 13.2 Roedd gan yr awdurdod Gynllun Rheoli Achosion a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol. Roedd y Cynllun yn seiliedig ar dempled a gynhyrchwyd gan grŵp amlasiantaethol a oedd yn cynnwys lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Sylwodd yr archwilwyr fod rhai o'r manylion cyswllt yn y Cynllun Rheoli Achosion yn hen ac nad oedd manylion cyswllt ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi'u darparu.
- 13.3 Roedd yr awdurdod hefyd wedi datblygu gweithdrefn gynhwysfawr ar gyfer ymchwilio i achosion gwenwyn bwyd a heintiau a gludir gan fwyd a gadarnhawyd ac a amheuir. Ategwyd y weithdrefn gan ystod o ddogfennau canllaw a holiaduron. Nid oedd y weithdrefn yn cyfeirio at arolygu safleoedd bwyd cysylltiedig neu amlygu cysylltiadau posibl rhwng achosion achlysurol. Er bod yr awdurdod wedi nodi bod trefniadau wedi'u sefydlu i ymateb i hysbysiadau y tu allan i oriau swyddfa, ni chyfeiriwyd at y rhain yn y weithdrefn. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth wrth yr archwilwyr fod yr ymateb y tu allan i oriau arferol yn sicr, ond ni phrofwyd hyn fel rhan o'r archwiliad.
- 13.4 Archwiliwyd hysbysiadau yn ymwneud â chwe achos achlysurol o glefydau heintus cysylltiedig â bwyd. Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr ac yn rhwydd cael gafael arnynt. Roedd yr holl ymchwiliadau wedi'u cynnal yn drylwyr ac yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod. Lle'r oedd yr awdurdod wedi amlygu cysylltiadau ymddangosiadol rhwng achosion achlysurol, cymerwyd camau dilynol ynglŷn â'r rhain gydag awdurdodau lleol eraill. Roedd ymyriadau priodol wedi'u cynnal mewn sefydliadau busnes bwyd cysylltiedig.
- 13.5 Ni fu unrhyw achosion datganedig o haint cysylltiedig â bwyd yn ardal yr awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

***Argymhelliad***

**13.6 Dylai'r awdurdod:**

- (i) Sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion achlysurol o heintiau cysylltiedig â bwyd y tu allan i oriau swyddfa yn cael ei chofnodi'n briodol a bod y weithdrefn yn cynnwys arolygu safleoedd

bwyd cysylltiedig. [Y Safon – 13.2]

## **14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd**

- 14.1 Roedd gan yr awdurdod Weithdrefn Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd gofnodedig. Roedd y weithdrefn yn manylu ar sut yr oedd yr awdurdod yn ymateb i ddigwyddiadau bwyd, rhybuddion bwyd – angen gweithredu, hysbysiadau tynnu cynnyrch yn ôl a hysbysiadau galw cynnyrch yn ôl, gan gynnwys y rhai hynny a dderbyniwyd y tu allan i oriau swyddfa arferol.
- 14.2 Y Prif Swyddog oedd yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei gweithredu'n effeithiol.
- 14.3 Roedd y weithdrefn yn cynnwys trefniadau'r awdurdod ar gyfer rhybuddio'r Asiantaeth Safonau Bwyd pe byddai perygl bwyd gwirioneddol neu bosibl yn cael ei amlygu'n lleol.
- 14.4 Roedd gan yr awdurdod system gyfrifiadurol a oedd yn gallu derbyn hysbysiadau, ac roedd wedi trefnu gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd iddynt gael eu hanfon ar e-bost yn uniongyrchol at swyddogion enwebedig. Roedd y weithdrefn yn cynnwys gofyniad ar gyfer cofnodi hysbysiadau a chamau a gymerwyd ar gronfa ddata'r awdurdod at ddibenion archwilio a gwaith dilynol posibl.
- 14.5 Edrychodd yr archwilwyr ar bum rhybudd bwyd a roddwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Derbyniwyd a gweithredwyd ar bob un yn brydlon yn unol â chynghor yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- 14.6 Ni fu unrhyw ddigwyddiadau lleol difrifol yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

## 15 Gorfodi

- 15.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Gorfodi a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mehefin 2010. Fe'i hategwyd gan Bolisi Gorfodi Cyfraith Bwyd. Roedd canllawiau ar wahân wedi'u cynhyrchu ar gyfer swyddogion lle yr amlygwyd achosion o dorri'r rheoliadau mewn safleoedd yr oedd Cyngor Sir Fynwy yn weithredwr busnes bwyd ar eu cyfer. Sylwodd yr archwilyr nad oedd hyn yn ymestyn i sefydliadau hamdden.
- 15.2 Roedd gweithdrefnau gwaith wedi'u datblygu yn ymdrin â'r ystod o ddewisiadau gorfodi sydd ar gael i swyddogion, ac roedd gan swyddogion fynediad at y Llawlyfr Proses Orfodi a Chyfreithiol a gynhyrchwyd gan Bartneriaeth Rheoleiddwyr y De-orllewin.
- 15.3 Nid oedd Polisiâu gorfodi na gweithdrefnau gwaith yr awdurdod yn cynnwys cyfeiriad at Gynllun y Prif Awdurdod. Yn ogystal, nid oedd y Polisi Gorfodi Cyfraith Bwyd wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r ffaith fod y defnydd o Hysbysiadau Camau Unioni wedi'i ymestyn i bob sefydliad bwyd ym mis Mai 2012.
- 15.4 Roedd nifer o ddogfennau canllaw ar gael i swyddogion i'w cynorthwyo i baratoi erlyniadau; fodd bynnag, nid oedd gweithdrefn gofnodedig ar gyfer cynnal erlyniad wedi'i sefydlu, ei chynnal a'i rhoi ar waith.
- 15.5 Roedd yr awdurdod wedi adrodd mewn dogfennau a gyflwynwyd cyn yr archwiliad ei fod wedi cymryd y camau gorfodi ffurfiol canlynol yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.
- 57 Hysbysiad Gwella Hylendid;
  - 1 Cau'n Wirfoddol;
  - 3 Erlyniad;
  - 2 Rybudd Syml
- 15.6 Archwiliwyd cofnodion pedwar Hysbysiad Gwella Hylendid, un achos o Gau'n Wirfoddol, dau Rybudd Syml a thri Erlyniad. Fe'u gwiriwyd yn erbyn canllawiau swyddogol a gweithdrefnau cofnodedig a Pholisi Gorfodi'r awdurdod.
- 15.7 Roedd y pedwar Hysbysiad Gwella Hylendid wedi'u rhoi gan swyddogion a oedd wedi'u hawdurdodi'n gywir ac wedi gweld yr achosion o dorri'r rheoliadau. Roedd yr hysbysiadau'n eglur ac yn rhwydd eu deall ac roedd terfynau amser ar gyfer cydymffurfio wedi'u hamlygu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod yr hysbysiadau wedi'u cyflwyno'n gywir na bod yr hawl i apelio ac enw a chyfeiriad y llys perthnasol wedi'u rhoi. Yn ogystal, nid oedd archwiliadau amserol wedi'u

cynnal i sicrhau cydymffurfiaeth, ac roedd llythyr yn cadarnhau y cydymffurfiwyd â'r hysbysiad ar gael mewn un achos yn unig. Nid oedd derbynydd yr hysbysiadau'n cyd-fynd â'r manylion ar y ffurflen cofrestru bwyd.

- 15.8 Archwiliwyd cofnodion un safle bwyd a gytunodd i gau'n wirfoddol. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau mai hwn oedd y cam priodol i'w gymryd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod y broses o gau wedi'i chynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 15.9 Roedd y weithdrefn ar gyfer Rhybuddion Syml yn cyfeirio at 'debygolrwydd realistig o gollfarn'. Nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos bod yr holl dystiolaeth wedi'i hystyried a bod Prawf Cod Llawn wedi'i ddefnyddio cyn gweinyddu'r Rhybuddion Syml. Yn ogystal, roedd un achos nad oedd wedi'i awdurdodi'n briodol yn unol â gweithdrefn yr awdurdod. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod Rhybuddion Syml wedi'u rhoi heb oedi gormodol.
- 15.10 Roedd erlyniadau wedi'u hawdurdodi'n gywir a dyna oedd y cam priodol i'w gymryd. Roedd dystiolaeth fod polisi gorfodi'r awdurdod wedi'i ystyried. Roedd y cofnodion yn dangos bod gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) wedi'u hystyried a'u cofnodi. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion yn ddigonol i ddangos bod gofynion y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol (CPIA) wedi'u hystyried ym mhob achos. Yn ogystal, ar draws yr holl ffeiliau erlyniad a rhybudd syml a archwiliwyd, roedd dwy restr wirio wahanol ar gyfer penderfyniad i erlyn wedi'u defnyddio, a oedd yn awgrymu rhywfaint o anghysondeb o ran y gweithdrefnau a oedd yn cael eu dilyn.

### ***Argymhellion***

- 15.11 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod ei Bolisi Gorfodi'n cael ei gynnal yn addas. [Y Safon – 15.1]
  - (ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2]
  - (iii) Sicrhau bod gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig a Pholisi Gorfodi'r awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.2, 15.3 a 15.4]



## 16 Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu

### *Hylendid Bwyd*

- 16.1 Roedd cofnodion busnesau bwyd a manylion ymyriadau yn ymwneud â'r busnesau hynny'n cael eu cadw ar gronfa ddata safleoedd electronig yr Adran Amddiffyn y Cyhoedd, mewn ffolderi penodol a rennir ac mewn copïau caled wedi'u harchifo. Nododd yr archwilwyr fod yr awdurdod yn symud oddi wrth system o gadw copïau caled o ffeiliau i system o reoli dogfennau'n electronig. Dywedwyd wrth yr archwilwyr, o ganlyniad i gyfyngiadau ar adnoddau a oedd yn gysylltiedig â newidiadau diweddar i lety, bod swm sylweddol o wybodaeth ar gopi caled wedi'i archifo heb gael ei gatalogio na'i fynegeoio, ac nad oedd yr holl wybodaeth a oedd yn ymwneud â gweithgareddau yn ystod y chwe blynedd diwethaf ar gael yn electronig.
- 16.2 Roedd swyddogion yn defnyddio cyfuniad o lythyrau ac adroddiadau ymweliadau cyfoes i roi gwybod i fusnesau bwyd am achosion o dorri'r rheoliadau.
- 16.3 Yn gyffredinol, nid oedd modd adalw cofnodion swyddogion am ymyriadau yn gyson. Roedd enghreifftiau o wybodaeth nad oedd ar gael yn cynnwys gohebiaeth yn dilyn arolygiadau (gan gynnwys llythyrau gwybodaeth a sgoriau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd), tystysgrifau samplu bwyd a ffurflenni cofrestru busnes bwyd.
- 16.4 Roedd y cofnodion hynny a oedd ar gael yn gywir ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn un achos, roedd adroddiad a farciwyd yn 'ailymweliad', nad oedd yn cynnwys llawer o wybodaeth am werthuso cydymffurfiaeth busnes bwyd, wedi'i adael mewn safle risg uchel er gwaethaf y ffaith fod yr ymweliad wedi'i amlygu fel arolygiad llawn ar y gronfa ddata. Mewn achos arall, nid oedd y Gweithredwr Busnes Bwyd a enwyd ar adroddiad arolygu yn gyson â'r Gweithredwr Busnes Bwyd cofrestredig ar y gronfa ddata.
- 16.5 Lle'r oeddent ar gael, roedd cofnodion arolygiadau'n cynnwys manylion am y Gweithredwr Busnes Bwyd, dyddiadau arolygu, y math o fusnes, y camau i'w cymryd gan yr awdurdod bwyd ac, yn gyffredinol, asesiadau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol.
- 16.6 Mewn pump o'r saith cofnod arolygu a archwiliwyd, roedd gwybodaeth allweddol ar goll, fel gwybodaeth am y cwsmer a'r cyflenwr, a thystiolaeth o unrhyw ystyriaeth o fwyd wedi'i fewnforio.
- 16.7 Nid oedd amser yr arolygiad, y manau a arolygwyd a'r graddfeydd amser ar gyfer gwaith unioni wedi'u cofnodi'n gyson. Yn ogystal, nid

oedd bob amser yn bosibl pennu o'r cofnodion p'un a oedd asesiad o briodoldeb y gweithdrefnau busnes wedi'i ystyried.

### **Safonau Bwyd**

- 16.8 Archwiliwyd cofnodion 10 busnes bwyd arall a fu'n destun arolygiad. Roedd chwech o'r 10 safle wedi'u cofrestru, ac roedd y gweddiill yn sefydliadau cymeradwy. Roedd dogfennau cofrestru ar gael mewn perthynas â phob un o'r chwe safle. Fodd bynnag, nid oedd y dyddiad derbyn wedi'i nodi ar ddwy o'r dogfennau cofrestru, fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 16.9 Nid oedd unrhyw gofnodion arolygu ar gael ar gyfer un o'r safleoedd. Roedd cynnwys cofnodion arolygu'n amrywio, gyda gwybodaeth annarllenadwy neu wybodaeth ar goll mewn rhai adroddiadau. Roedd yr wybodaeth hon yn cynnwys enw a chyfeiriad y busnes bwyd, y Gweithredwr Busnes Bwyd, yr unigolyn a gyfwelwyd, y math o fusnes, y manau a arolygwyd, y cofnodion a archwiliwyd, ac amser yr arolygiad. Yn gyffredinol, nid oedd digon o fanylion yn y cofnodion i gadarnhau bod asesiadau effeithiol o gydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol wedi'u cynnal. Felly, byddai'n anodd iawn i swyddog arall sefydlu hanes cydymffurfiaeth y busnes a llywio dull graddoledig o orfodi.
- 16.10 Yn gyffredinol, roedd arolygiadau wedi arwain at roi ffurflenni adroddiad copi carbon a ysgrifennwyd â llaw. Roedd un wedi'i ddilyn gan llythyr. Nid oedd modd adalw un o'r adroddiadau copi carbon mewn modd amserol. Roedd dau o'r adroddiadau copi carbon yn cyfeirio at ofynion cyfreithiol, ond ni wahaniaethwyd yn eglur rhwng tor-rheoliadau ac argymhellion. Nid oedd y ffurflenni adroddiad copi carbon na'r llythyr yn cynnwys graddfeydd amser ar gyfer cydymffurfio.

### **Argymhellion**

- 16.11 Dylai'r awdurdod:
- (i) Gynnal cofnodion cywir a chyfredol mewn ffurf y gellir ei hadalw'n rhwydd ar yr holl sefydliadau bwyd perthnasol a bwyd wedi'i fewnforio yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, y penderfyniad ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion camau a gymerwyd. [Y Safon – 16.1]
- (ii) Sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau ymyriadau/arolygiadau yn cael eu cadw am 6 blynedd o leiaf. [Y Safon – 16.2]



## 17 Cwynion am y Gwasanaeth

- 17.1 Roedd yr awdurdod wedi sefydlu, gweithredu a chyhoeddi Polisi a Gweithdrefn Cwynion a Chanmoliaeth Awdurdod Cyfan a oedd ar gael ar wefan yr awdurdod.
- 17.2 Dywedwyd wrth yr archwilwyr nad oedd yr Adran Amddiffyn y Cyhoedd wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol am y gwasanaeth gorfodi bwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Nid oedd cwynion a dderbyniwyd cyn y cam ymchwilio ffurfiol yn cael eu cofnodi fel mater o drefn.

### ***Argymhelliad***

- 17.3 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud o'r holl gwynion a dderbynnir a'r holl gamau a gymerir mewn ymateb i'r cwynion hynny. [Y Safon –17.3]

## 18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt wedi'u sefydlu ag awdurdodau cyfagos a chyrrff priodol eraill er mwyn hwyluso gorfodi cyson. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan yn weithredol yn y canlynol:

- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru
- Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru
- Penaethiaid Safonau Masnach Cymru
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan
- Tasglu Diogelwch Bwyd De-orllewin Cymru
- Tasglu Clefydau Trosglwyddadwy De-orllewin Cymru
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru
- Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru
- Grŵp Bwyd Gwent Fwyaf

18.2 Roedd cofnodion ar gael o gyfarfodydd grwpiau cyswllt ac roeddent yn cadarnhau bod cynrychiolwyr priodol o'r gwasanaeth yn bresennol ynndynt yn rheolaidd.

18.3 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt gweithredol â'r canlynol hefyd:

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Y Swyddfa Rheoliadau Gwell (BRDO)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Y Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd;
- Adrannau eraill yn yr awdurdod.

18.4 Dywedwyd wrth yr archwilwyr bod yr awdurdod yn gweithio gydag awdurdodau cyfagos yng Ngwent i archwilio cyfleoedd ar gyfer gwaith cydweithredol o ran darparu gwasanaethau Safonau Masnach. Roedd Pennaeth y Gwasanaeth yn cyflawni swyddogaeth allweddol yn y trafodaethau hyn.

## 19 Monitro Mewnol

- 19.1 Roedd yr awdurdod wedi llunio gweithdrefn fonitro fewnol a oedd yn ymdrin ag agweddau meintiol ac ansoddol ar y gwasanaeth. Cafodd ei hadolygu a'i diwygio'n ddiweddar i gynnwys pob agwedd ar y Cytundeb Fframwaith.
- 19.2 Y Prif Swyddog oedd yn gyfrifol am gymeradwyo'r weithdrefn a sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol. Roedd swyddogion eraill yn y tîm yn ymwneud â chynnal gweithgareddau monitro mewnol hefyd.
- 19.3 Roedd y weithdrefn fonitro fewnol yn berthnasol i ymyriadau, cwynion, hysbysiadau statudol, clefydau heintus, Rhybuddion Bwyd, samplu a cheisiadau am wasanaeth. Roedd yn ymdrin â'r canlynol;
- Arolygiadau a gynhelir gan fwy nag un swyddog
  - Cyfarfodydd tîm
  - Ymarferion cysondeb
  - Adolygiadau gwaith swyddogion
  - Archwiliadau o ymyriadau gan gymheiriaid
  - Adolygiadau ffurfiol o benderfyniadau gorfodi
  - Adolygiadau achosion
- 19.4 Roedd yr awdurdod wedi datblygu taenlen ar gyfer monitro'r rhaglen ymyriadau hylendid bwyd flynyddol yn feintiol. Roedd y daenlen yn cael ei chadw'n electronig mewn ffolder a rennir ac fe'i defnyddiwyd i sicrhau bod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad pryd y dylid bod wedi'u cynnal. Dogfen weithio fyw oedd hon a oedd yn cael ei defnyddio gan staff a'r Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd. Roedd yn ofynnol i swyddogion fewnbynnu canlyniad eu hymyriadau ar y daenlen. Roedd system cod lliw yn amlygu ymyriadau a oedd i'w cynnal, a'r busnesau bwyd hynny yr oedd angen cymryd camau dilynol ynglŷn â hwy. Amlygwyd hyn fel maes arfer da gan yr archwilwyr.
- 19.5 Roedd adroddiadau monitro ansoddol yn cael eu cynhyrchu gan y Gweinyddwr Systemau ar sail wythnosol a misol ar agweddau amrywiol ar y gwasanaeth, gan gynnwys amseroedd ymateb i gwynion a chyflawnder y data a gofnodwyd.
- 19.6 Roedd log monitro mewnol ansoddol mewn perthynas â hylendid bwyd yn cael ei gynnal gan y Prif Swyddog ar gronfa ddata. Nid oedd hwn yn darparu digon o fanylion am yr hyn oedd yn cael ei fonitro, y canfyddiadau na'r camau gweithredu a oedd yn deillio o'r monitro mewnol. Ychydig o gofnodion oedd ar gael am fonitro mewnol ansoddol e.e. gwiriadau ffeiliau erlyniad, ymarferion cysondeb sgoriau risg a gwiriadau cronfa ddata. Byddai cysylltu cofnodion monitro mewnol â'r log

monitro mewnol yn darparu tystiolaeth fod monitro mewnol ansoddol yn cael ei gynnal.

- 19.7 Nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael i ddangos bod monitro mewnol ansoddol yn cael ei gynnal mewn perthynas ag ymyriadau safonau bwyd.

### ***Argymhellion***

- 19.8 Dylai'r awdurdod:
- (i) Roi'r weithdrefn fonitro fewnol ar waith yn llawn ar draws yr holl weithgareddau hylendid bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 19.1]
  - (ii) Sicrhau bod cofnodion o'r holl weithgareddau monitro mewnol yn cael eu gwneud a'u cadw am o leiaf ddwy flynedd. [Y Safon – 19.3]

### **Arfer Da – Monitro Mewnol Meintiol o'r rhaglen Ymyriadau Hylendid Bwyd**

Roedd y rhaglen arolygu hylendid bwyd flynyddol wedi'i lawrlwytho ar daenlen Excel. Roedd ar gael ar yriant a rennir ac yn cael ei defnyddio gan swyddogion a rheolwyr. Roedd y daenlen wedi'i chynllunio ar sail cod lliw ac yn rhybuddio swyddogion am sefydliadau yr oedd yn bryd cynnal arolygiad ohonynt ac yr oedd arolygiad yn hwyr ar eu cyfer. Roedd sgoriau risg yn cael eu holrhain ac roedd cyfle ar gael i swyddogion fewnbynnu camau gweithredu er mwyn gwella cydymffurfiaeth. Roedd y daenlen wedi cynorthwyo'r awdurdod i gynnal arolygiadau'n fwy amserol ac fe'i defnyddiwyd yn rheolaidd gan Bennaeth y Gwasanaeth a oedd yn monitro cynnydd.

## **20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid**

- 20.1 Nid oedd y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd wedi cymryd rhan mewn unrhyw adolygiadau gan gymheiriaid nac wedi bod yn destun unrhyw archwiliadau gan drydydd parti yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.
  
- 20.2 Roedd archwiliad o reolaethau swyddogol awdurdodau lleol a rheolaethau Gweithredwr Busnes Bwyd mewn sefydliadau cymeradwy wedi'i gynnal yn 2010.



## 21 Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd

- 21.1 Roedd yr awdurdod wedi dangos ymrwymiad i hybu hylendid bwyd a safonau bwyd, ac roedd wedi cychwyn neu gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau hyrwyddol, gan gynnwys:
- Hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol;
  - Yr Wythnos Genedlaethol Diogelwch Bwyd;
  - Hyfforddiant hylendid bwyd;
  - Blychau bwyd iachus
- 21.2 Roedd yn anodd i'r awdurdod ddarparu tystiolaeth o gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn gan nad oedd cofnodion gwaith hyrwyddol yn ddigon cynhwysfawr.
- 21.3 Roedd DVD wedi'i gynhyrchu gan yr awdurdod i'w ddefnyddio mewn ysgolion cynradd er mwyn amlygu pwysigrwydd golchi dwylo. Roedd tystiolaeth fod yr awdurdod wedi ymgymryd â mentrau rhagweithiol mewn cyfleusterau cynradd a blynyddoedd cynnar i hyrwyddo'r DVD. Roedd Cynllun y Gwasanaeth Diogelwch Bwyd ar gyfer 2012/13 yn darparu ymrwymiad parhaus i'r gweithgareddau hyn.

### ***Argymhelliad***

- 21.4 Dylai'r awdurdod:
- (i) Gynnal cofnodion o'i waith hyrwyddo diogelwch bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 21.2]

Archwilwyr:

**Archwilydd Arweiniol: Kate Thompson**  
Archwilwyr: Alun Barnes  
Craig Sewell

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru  
Llawr 11  
Tŷ Southgate  
Wood Street  
Caerdydd  
CF10 1EW

**Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Fynwy**  
**Dyddiad yr Archwiliad: 20 – 22 Chwefror a 4 – 5 Mawrth 2013**

<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
<p>3.16(i) Sicrhau bod Cynlluniau'r Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn y dyfodol yn cydymffurfio'n llawn â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn arbennig, dylid cynnwys dadansoddiad o'r adnoddau sydd eu hangen o gymharu â'r rhai hynny sydd ar gael. [Y Safon – 3.1]</p>	<p>Yng nghynllun gwasanaeth 14-15</p>	<p>Bydd cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol (o 2014-15 ymlaen) yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Disgrifiad o ddull yr Awdurdod o sicrhau bod ymyriadau Safonau Bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder sy'n ofynnol gan eu sgoriau risg o leiaf.</li> <li>• Amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni pob agwedd ar y gwasanaeth a amlinellir yn y cynllun.</li> <li>• Byddwn yn ymgynghori ag awdurdodau eraill trwy Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru a'r Panel Technegol Diogelwch Bwyd, ac yn cysylltu ag Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru mewn ymgais i amlygu methodoleg arfer da a hybu cysondeb o ran y</li> </ul>	

I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
		dull o amcangyfrif yr adnoddau sydd eu hangen.	
4.7(i) Adolygu'r holl weithdrefnau gwaith cofnodedig yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir sut y caiff y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd ei ddarparu yn ymarferol, gan gynnwys yr ystyriaethau prif awdurdod. [Y Safon – 4.1]	Erbyn Mawrth 2014 O fewn y targed	Bydd unrhyw weithdrefnau nad ydynt wedi'u hadolygu o fewn y 12 mis diwethaf yn cael eu hadolygu.  Bydd ystyriaethau perthnasol Prif Awdurdod yn cael eu hychwanegu at weithdrefnau priodol.	
5.16(i) Adolygu'r Cynllun Dirprwyo i gynnwys y pŵer i ddal gafael ar fwydydd a fewnforiwyd. [Y Safon – 5.1]	Dim camau pellach hyd nes bod adolygiad awdurdod cyfan o'r cynllun yn cael ei gynnal	Mae'r archwilwyr yn cynghori y dylai cynllun dirprwyo'r awdurdod gael ei ddiweddarau i ymdrin â dal gafael ar fwydydd a fewnforiwyd. Fodd bynnag, mae'r Prif Swyddog Adfywio a Diwylliant wedi dirprwyo awdurdod "i arfer swyddogaethau'r cyngor o dan ddeddfwriaeth yn ymwneud â bwyd a chyffuriau, hylendid bwyd,...". Gellir diweddarau cyfeiriadau penodol pan fydd cynllun y cyngor yn cael ei ddiwygio nesaf. Mae Swyddogion Gorfodi Cyfraith Bwyd wedi'u hawdurdodi o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009.	
5.16(ii) Adolygu a diweddarau awdurdodiadau swyddogion fel y bo'r angen er mwyn sicrhau bod yr holl swyddogion wedi'u hawdurdodi'n	Cwblhawyd	Mae'r unig swyddog nad oedd wedi'i awdurdodi o dan y Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd wedi'i awdurdodi bellach.	



I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
		ac yn destun adroddiad bob chwarter) er mwyn sicrhau bod arolygiadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad pryd y dylid bod wedi'u cynnal (cyflawnwyd 98% yn 2012-13). Byddwn yn parhau i anelu at y safonau uchel hyn o ddarparu gwasanaeth. (Amlygwn gamau ychwanegol o ran arolygiadau Safonau mewn man arall.)	
7.23(ii) Cynnal ymyriadau / arolygiadau, a chymeradwyo sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]	Parhaus  Adolygu erbyn diwedd Chwefror 2014  Adolygu erbyn Mawrth 14, o fewn y targed	Byddwn yn parhau i geisio bodloni gofynion y Cod Ymarfer o ran adolygiadau, ymyriadau, gorfodi a chofnodi: yn arbennig, er mwyn cryfhau hyn, byddwn yn:  • Adolygu sampl ar hap o ffeiliau ac yn defnyddio canfyddiadau'r archwiliad i amlygu a gweithredu unrhyw welliannau angenrheidiol i'r dulliau darparu presennol.  Byddwn yn adolygu'r ffeiliau ar gyfer yr holl sefydliadau cymeradwy yn unol â'r Cod Ymarfer.	
7.23(iii) Cymryd camau priodol yn sgil unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfiaeth a ganfyddir, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3]	Erbyn diwedd Tachwedd 13 Cwblhawyd	Dwyn canfyddiadau'r archwiliad a'r cynllun gweithredu hwn i sylw'r holl staff.	

I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
7.23(iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4]	Rhannol erbyn Tachwedd 13, cwblhau erbyn diwedd Mawrth 14 Cwblhawyd	Byddwn yn adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau gyda swyddogion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safon o ran materion fel casglu gwybodaeth yn ystod arolygiadau, cynnal ailymweliadau, cymryd camau mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth.	
7.23(v) Storio cofnodion cyfoes o ymyriadau mewn ffordd sy'n golygu bod modd eu hadalw'n rhwydd. [Y Safon – 7.5]	Dwyn canfyddiadau'r archwiliad i sylw'r holl staff erbyn Tachwedd 2013 ac adolygu gweithdrefnau storio ac adalw erbyn diwedd Ionawr 14	Fel rhan o'n broses barhaus o drosglwyddo i system gofnodi gwbl ddi-bapur, byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r archwiliad i lywio ein trefniadau cofnodi ac adalw, gan gynnwys diweddarau gweithdrefnau a chanllawiau staff lle y bo'n briodol.	
<u>Safonau Bwyd</u> 7.36(i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau safleoedd bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]	Ar unwaith ond ar gyfer rhaglen y flwyddyn nesaf hefyd	Byddwn yn adolygu ein dull er mwyn sicrhau bod ymyriadau Safonau Bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder sy'n ofynnol gan eu sgoriau risg o leiaf (nid dim ond ar yr un amllder ag arolygiadau hylendid bwyd)	
7.36(ii) Cynnal arolygiadau/ymyriadau mewn sefydliadau bwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod	Erbyn Mawrth 2014 O fewn y	Byddwn yn adolygu ein dull o gymhwyso sgoriau risg safonau bwyd i gynnwys meincnodi ac	

I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
Ymarfer Cyfraith Bwyd a Chanllawiau Ymarfer, gan gynnwys defnyddio ffurflenni arolygu priodol. [Y Safon – 7.2]	targed  Erbyn Rhagfyr 13 Cwblhawyd	adolygu gan gymheiriaid gyda Grŵp Bwyd Gwent Fwyaf.  Byddwn yn sefydlu trefniadau monitro cofnodedig ar gyfer sgoriau risg safonau bwyd.	
7.36(iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau a gynhelir ganddo. [Y Safon – 7.4]	Erbyn diwedd Chwefror 14	Byddwn yn datblygu gweithdrefn gorfodi amgen ar gyfer safonau bwyd.	
7.36(iv) Cofnodi arsylwadau a data a gafwyd o ymyriadau mewn modd amserol er mwyn atal eu colli a sicrhau bod cofnodion cyfoes yn ddarllenadwy a bod modd eu hadalw. [Y Safon – 7.5]	Erbyn Rhagfyr 2013 Cwblhawyd  Erbyn Mawrth 14 O fewn y targed	Byddwn yn adolygu'r gweithdrefnau ac yn cyhoeddi canllawiau ychwanegol i staff ar gofnodi a storio'r manylion sy'n ofynnol gan y Safon, ynghyd â chyngor ar ddulliau ailymweld a gorfodi, a defnyddio cymhorthion cof a ffurflenni arolygu penodol i gynnyrch.  Byddwn yn adolygu'r holl bolisiau a gweithdrefnau na chafodd eu hadolygu o fewn y 12 mis diwethaf.	
<u>Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd</u> 8.11(i) Adolygu a diweddarau'r polisi a'r weithdrefn gofnodedig i gynnwys canllawiau ar gyfer swyddogion ar amseroedd ymateb targed. [Y Safon – 8.1]	Erbyn Tachwedd 13 Cwblhawyd	Mae gennym ni bolisiau corfforaethol mewn perthynas ag amseroedd ymateb safonol. O ran materion yn ymwneud â rheoli clefydau trosglwyddadwy, mae swyddogion yn dilyn y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd o dan	

I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
		Reoliadau Diogelu Iechyd – Canllawiau Hysbysu ar gyfer Labordai (Hysbysu) (Cymru) 2010 (Rheolau arbenigol gynt). Mewn achosion eraill, disgwylwn i swyddogion ddefnyddio barn broffesiynol wrth benderfynu ar ddifrifoldeb unrhyw fater penodol sy'n dod i'w sylw. Byddwn yn adolygu'r canllawiau.	
8.11(ii) Ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2]	Erbyn Tachwedd 13 Cwblhawyd	Byddwn yn adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau mewn perthynas â chwynion er mwyn gwirio bod y canllawiau'n eglur ar faterion sydd ag ystyriaethau diogelwch bwyd ehangach.	
12.12(i) Sicrhau bod ei raglen samplu gofnodedig yn cynnwys cyfeiriad at flaenoriaethau samplu cenedlaethol. [Y Safon – 12.4]	Cynllun gwasanaeth nesaf 14-15	Bydd cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol yn cyfeirio'n benodol at flaenoriaethau cenedlaethol yr Asiantaeth Safonau bwyd o ran samplu.	
12.2(ii) Cynnal cofnodion samplu cywir a chyfredol ar ffurf y gellir ei hadalw'n rhwydd. [Y Safon – 16.1]	Erbyn diwedd Tachwedd 13 Cwblhawyd	Nodwn arsylwadau archwilwyr yr Asiantaeth Safonau Bwyd ynglŷn â hyn a byddwn yn atgoffa pob swyddog o ofynion y Safon.	
12.2(iii) Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn sgil canlyniadau samplu bwyd anfodhaol. [Y Safon – 12.7]	Erbyn diwedd Tachwedd 13 Cwblhawyd	Nodwn arsylwadau archwilwyr yr Asiantaeth Safonau Bwyd ynglŷn â hyn a byddwn yn atgoffa pob swyddog o ofynion y Safon.	
13.6(i) Sicrhau bod y weithdrefn ar	Rhagfyr 13	Mae gan yr awdurdod un weithdrefn	



<b>I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)</b>	<b>ERBYN (DYDDIAD)</b>	<b>GWELLIANNAU ARFAETHEDIG</b>	<b>CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN</b>
gyfer ymdrin ag achosion achlysurol o heintiau cysylltiedig â bwyd y tu allan i oriau swyddfa yn cael ei chofnodi'n briodol a bod y weithdrefn yn cynnwys arolygu safleoedd bwyd cysylltiedig. [Y Safon – 13.2]	Cwblhawyd	sydd yr un fath y tu allan i oriau swyddfa ac o fewn oriau swyddfa, a byddwn yn esbonio hyn yn fwy eglur.  Byddwn yn adolygu ein gweithdrefnau a'n canllawiau sy'n ymdrin â'r materion hyn, gan gynnwys diweddarau manylion cyswllt ac arolygu safleoedd cysylltiedig.	
15.11(i) Dylai'r awdurdod sicrhau bod ei Bolisi Gorfodi'n cael ei gynnal yn addas. [Y Safon – 15.1]	Erbyn Mai 14	Bydd Polisi Gorfodi Cyfraith Bwyd yr Awdurdod yn cael ei ddiwygio i ystyried pwerau newydd mewn perthynas â Hysbysiadau Camau Unioni ac i adlewyrchu materion Prif Awdurdod.	
15.11(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer camau dilynol a champau gorfodi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2]	Erbyn Mawrth 14	Mae'r holl weithdrefnau'n cael eu hadolygu'n barhaus, fel y disgrifiwyd mewn manau eraill, a byddant yn cael eu diwygio fel y bo'n briodol i adlewyrchu ystyriaethau Prif Awdurdod.	
15.11(iii) Sicrhau bod gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig a Pholisi Gorfodi'r awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.2, 15.3 a 15.4]	Erbyn Rhagfyr 13 Tachwedd 13	Byddwn yn adolygu ein gweithdrefn erlyn er mwyn sicrhau mwy o eglurder ac yn cofnodi'r dull.  Byddwn yn dwyn canfyddiadau'r archwiliad i sylw'r holl swyddogion er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu	

I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
		dysgu unrhyw wersi priodol sy'n deillio o'r archwiliad. Byddwn yn parhau i ymgymryd â gwaith monitro mewnol yn rheolaidd.	
16.11(i) Cynnal cofnodion cywir a chyfredol mewn ffurf y gellir ei hadalw'n rhwydd ar yr holl sefydliadau bwyd perthnasol a bwyd wedi'i fewnforio yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, y penderfyniad ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion camau a gymerwyd. [Y Safon – 16.1]	Erbyn Tachwedd 13 Cwblhawyd.  Yn unol â'r amserlen ar gyfer adolygu canllawiau a gweithdrefnau.	Bydd canfyddiadau manwl yr archwiliad yn cael eu dwyn i sylw'r holl swyddogion.  Fel y nodwyd mewn manau eraill, byddwn yn adolygu'r canllawiau ar gofnodi a storio gwybodaeth.	
17.3(i) Sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud o'r holl gwynion a dderbynnir a'r holl gamau a gymerir mewn ymateb i'r cwynion hynny . [Y Safon – 17.3]	Erbyn diwedd Mawrth 14	Byddwn yn adolygu dull yr Awdurdod o weithredu ar gwynion a'u cofnodi, gan egluro'r gwahaniaeth rhwng "ceisiadau am wasanaeth" a "cwynion".	
19.8(i) Rhoi'r weithdrefn fonitro fewnol ar waith yn llawn ar draws yr holl weithgareddau hylendid bwyd a safonau bwyd . [Y Safon – 19.1]	Erbyn Rhagfyr 2013	Byddwn yn adolygu (a diwygio fel y bo'n briodol) ein gweithgareddau monitro safonau bwyd yn sgil canfyddiadau'r archwiliad.	
19.8(ii) Sicrhau bod cofnodion o'r holl weithgareddau monitro mewnol yn cael eu gwneud a'u cadw am o leiaf ddwy flynedd . [Y Safon – 19.3]	Ar unwaith	Nodwn sylwadau'r archwilwyr o ran ein dulliau o fonitro gweithgareddau hylendid bwyd. Nodwn hefyd fod yr archwilwyr yn awgrymu bod mwy o	

I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	ERBYN (DYDDIAD)	GWELLIANNAU ARFAETHEDIG	CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN
		fanylion yn cael eu cadw am y gwaith monitro ansoddol sydd eisoes yn cael ei wneud.	
21.4(i) Cynnal cofnodion o'i waith hyrwyddo diogelwch bwyd a safonau bwyd . [Y Safon – 21.2]	Ar unwaith	Mae cofnodion yn cael eu cadw a byddwn yn cynnal cofnodion mwy cynhwysfawr yn y dyfodol, a gedwir mewn man canolog ar ffurf electronig.	

## Dull/Methodoleg yr Archwiliad

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio ystod o wahanol fathau o ddulliau a methodoleg, fel a ganlyn:

### (1) Archwilio Polisiâu a Gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol

Derbyniwyd y polisiâu, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol gan yr Awdurdod Lleol cyn yr archwiliad:

- Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd Cyngor Sir Fynwy ar gyfer 2012/13 a chofnodion cymeradwyo cysylltiedig y Cabinet
- Adolygiad Amddiffyn y Cyhoedd o Ganlyniadau a Gyflawnwyd yn ystod 2011
- Cofnodion y Cyngor, Chwefror 2009 – Deddfwriaeth Iechyd yr Amgylchedd: Dirprwyo Pwerau i Swyddogion
- Gweithdrefn Waith: Awdurdodi Swyddogion
- Rhestr Dirprwyaethau Swyddogion
- Gweithdrefn Waith ar gyfer Graddnodi Thermomedrau
- Gweithdrefn Ymyriadau ac Ailymweliadau â Safleoedd, gan gynnwys ffurflenni arolygu
- Canllawiau i swyddogion: Dewis Rheolaethau Swyddogol ac Ymyriadau eraill mewn Safleoedd Categori BC C
- Gweithdrefn Ymyriadau Hylendid Bwyd Panel Technegol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru Gyfan
- Cymorth Cof / Rhestr Wirio Arolygu – Gweithredu Canllawiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar Reoli Croeshalugi gan *E.coli* O157
- Gweithdrefn Cyngor Sir Fynwy ar gyfer Ymyriadau Safonau Bwyd
- Gweithdrefn Cyngor Sir Fynwy ar gyfer Safleoedd y mae angen eu Cymeradwyo o dan 853/2004
- Gweithdrefnau ar gyfer Arolygu Ysgolion, Meithrinfeydd a Lleoliadau Blynnyddoedd Cynnar, a Lleoliadau Gofal Cymdeithasol
- Polisi a Gweithdrefn Cwynion am Fwyd / Bwyd Anifeiliaid Panel Technegol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru Gyfan
- Cyngor Sir Fynwy – RER FLARE Canllawiau ar Gofnodi Gweithgarwch Prif Awdurdod ar gyfer Partneriaethau Cyngor Sir Fynwy
- Cytundebau Prif Awdurdod
- Gweithdrefn Cywirdeb Cronfa Ddata Panel Technegol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru Gyfan
- Polisi a Gweithdrefn Samplu Bwyd Cyngor Sir Fynwy
- Rhaglen Samplu Safonau Bwyd
- Cynllun Cyngor Sir Fynwy ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy
- Gweithdrefn Cyngor Sir Fynwy ar gyfer Ymchwilio i Achosion Gwenwyn Bwyd a Heintiau a Gludir gan Fwyd a Gadarnhawyd ac a Amheuir
- Gweithdrefn Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd Panel Technegol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru Gyfan
- Polisi Gorfodi Cyfraith Bwyd Cyngor Sir Fynwy
- Polisi Gorfodi Corfforaethol Cyngor Sir Fynwy a chofnod cymeradwyo'r Cabinet
- Gweithdrefn Cyngor Sir Fynwy ar gyfer Dal Gafael ar Fwyd

- Gweithdrefn Cyngor Sir Fynwy ar gyfer Rheoliadau Gwaharddiad Brys Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
- Gweithdrefn Cyngor Sir Fynwy ar gyfer Cyflwyno Hysbysiadau Gwella Hylendid o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Safonau Bwyd 1990
- Gweithdrefn Hysbysiad o Gamau Unioni Cyngor Sir Fynwy
- Gweithdrefn Cyngor Sir Fynwy ar gyfer Cyflwyno Rhybuddion Syml
- Polisi Cwynion a Chanmoliaeth Awdurdod Cyfan Cyngor Sir Fynwy
- Cofnodion amryw gyfarfodydd cyswllt allanol
- Gweithdrefn Fonitro Fewnol Panel Technegol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru Gyfan
- Cofnodion cyfarfodydd tîm

## **(2) Adolygu Ffeiliau**

Adolygwyd nifer o gofnodion ffeil yr awdurdod lleol yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys:

- Cofnodion arolygu safleoedd bwyd cyffredinol
- Ffeiliau sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cwynion am fwyd a safleoedd bwyd
- Cofnodion gorfodi ffurfiol
- Cofnodion awdurdodi a hyfforddi swyddogion
- Cofnodion monitro mewnol
- Cofnodion graddnodi
- Cofnodion digwyddiadau bwyd

## **(3) Adolygu Cofnodion ar y Gronfa Ddata:**

Ystyriwyd detholiad o gofnodion ar y gronfa ddata yn ystod yr archwiliad er mwyn:

- Adolygu ac asesu cyflawnrwydd cofnodion ar y gronfa ddata am arolygiadau hylendid bwyd, ymchwiliadau i gwynion am fwyd a safleoedd bwyd, samplau a gymerwyd gan yr awdurdod, gorfodi ffurfiol a gweithgareddau eraill, ac i gadarnhau cysondeb â chofnodion ffeil
- Asesu cyflawnrwydd a chywirdeb y gronfa ddata safleoedd bwyd
- Asesu gallu'r system i gynhyrchu adroddiadau ar weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd a'r wybodaeth fonitro sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

## **(4) Cyfweld Swyddogion**

Cynhaliwyd cyfweiliadau â swyddogion er mwyn cael mwy o wybodaeth am sut yr oedd trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli bwyd/bwyd anifeiliaid yn gweithredu'n ymarferol. Cyfwelwyd y swyddogion canlynol:

Y Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd

Tîm Masnachol y Prif Swyddog

Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd, gan gynnwys swyddogion arweiniol ar gyfer safonau bwyd a rheoli clefydau heintus

Y Swyddog Gwasanaethau Masnachol

Mae'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod cyfweiliadau â swyddogion yn gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad.

**(5) Gwiriadau Dilysu Ar y Safle:**

Cynhaliwyd ymweliadau dilysu â thri busnes bwyd lleol gyda swyddogion. Diben yr ymweliadau oedd dilysu canlyniad yr arolygiadau diwethaf a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Lleol ac asesu i ba raddau yr oedd y gweithgareddau gorfodi a'r penderfyniadau a wnaed yn bodloni gofynion deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol.

## Rhestr Termiau

Archwilio Rhyng-awdurdod	System lle y gallai awdurdodau lleol archwilio eu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn unol â safon ansawdd gytunedig.
Archwiliwr Bwyd	Unigolyn â chymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle y mae canolfan benderfynu berthnasol menter wedi'i lleoli ac sydd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau bwyd y cwmni hwnnw.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethau o fewn ei ardal, ac y mae'r awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar ei gyfer o ran ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â'r cynhyrchion hynny.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle y mae'r holl swyddogaethau wedi'u cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddwyd o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth fwyd.
CPIA	Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliadau ac achosion troseddol.
Cyferwerth ag Amser Llawn	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan honno o amser swyddog unigol sydd ar gael i gyflawni rôl benodol neu gyfres benodol o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gallai unigolion weithio'n rhan-amser, neu y gallai fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodi bwyd.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n

amlinellu ei gynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.

Cytundeb Fframwaith

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys:

- Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd
- Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth
- Cynllun Monitro
- Cynllun Archwilio

Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn amlinellu disgwyliadau'r Asiantaeth o ran cynllunio a darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.

Mae'r **Cynllun Monitro** yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno ffurflenni i'r Asiantaeth bob tri mis ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.

O dan y **Cynllun Archwilio**, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn unol â'r meini prawf a osodwyd yn y Safon.

Dadansoddwr  
Cyhoeddus

Swyddog sydd â'r cymwysterau rhagnodedig a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i gynnal dadansoddiad cemegol o samplau bwyd.

Fforwm aelodau

Fforwm awdurdod lleol lle y mae Aelodau'r Cyngor yn trafod a gwneud penderfyniadau am wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd.

Ffurflenni OCD

Ffurflenni ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Rheolaeth Swyddogol ar Fwyd.

Gweithiwr Iechyd yr  
Amgylchedd  
Proffesiynol

Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.

HACCP

Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i amlygu pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle y mae'n hollbwysig, o safbwynt diogelwch bwyd, bod y mesur rheoli'n cael ei gynnal yn gywir, gan felly ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel.

Hylendid bwyd

Y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelwch ac iachusrwydd bwyd.



Hysbysiad Gwella Hylendid	Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n mynnu bod perchennog busnes bwyd yn cyflawni gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
LAEMS	System electronig yw'r System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i adrodd ar eu gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.
PACE	Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ymchwiliadau troseddol.
Prif Awdurdod	Awdurdod lleol sydd wedi datblygu partneriaeth â busnes sy'n masnachu ar draws ffiniau awdurdod lleol ac sy'n rhoi cyngor i'r busnes hwnnw.
Rhybuddion Perygl Bwyd/ Rhybuddion Bwyd	System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd.
Safle cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddwyd cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol ym maes masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n ymdrin ag ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Safonau Masnach	Y gwasanaeth mewn awdurdod lleol sy'n gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill.
Sgôr risg	System sy'n rhoi sgôr i safle bwyd yn ôl risg ac sy'n pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safle hwnnw. Er enghraifft, dylai safle risg uchel o ran hylendid gael ei arolygu o leiaf bob 6 mis.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog â chymwysterau addas sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth orfodi deddfwriaeth, er enghraifft.
Swyddog Safonau Masnach	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a allai orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd

anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill.